**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14

Tachwedd 2012

Diben y papur hwn yw cyfrannu at y gwaith o graffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14. Mae'n rhoi trosolwg o'r arian sydd ar gael ym mloc Cymru, a chynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, a sut y mae'r rhain yn cymharu â chynlluniau 2012-13 a'r cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae hefyd yn rhoi sylwebaeth ar y prif newidiadau ym mhob maes portffolio, ac mae'n cynnwys dadansoddiad pellach a gwybodaeth ehangach na'r wybodaeth sydd ar gael yn y dogfennau a gyhoeddwyd eisoes ar y gyllideb.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/2484

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14

Tachwedd 2012

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 12/048

Gwasanaeth Ymchwil

## Amlinelliad o'r papur

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, fel y'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Hydref 2012.

Mae **Adran 1** yn cyflwyno Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14.

Mae **Adran 2** yn edrych ar floc Cymru dros amser ac effaith polisïau Llywodraeth y DU i leihau'r diffyg ariannol.

Mae **Adran 3** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau o fewn bloc Cymru a dyraniadau adrannol Llywodraeth Cymru, o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol ac o'r naill flwyddyn i'r llall.

Mae Adrannau 4 i 10 yn trafod holl bortffolios Llywodraeth Cymru yn fwy manwl, gan edrych ar y newidiadau yn y dyraniadau o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol ac o'r naill flwyddyn i'r llall. Archwilir y rhesymau dros y newidiadau yn y dyraniadau hefyd, lle bo hynny'n bosibl.

# Cynnwys


**1. Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 ..... 1**

**2. Yr effaith y mae polisïau'r DU i leihau'r diffyg ariannol yn ei chael ar floc Cymru. ..... 2**

**3. Trosolwg o Floc Cymru ..... 5**

3.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME) ..... 5
3.2. Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL) ..... 9

**4. DEL refeniw ..... 14**

4.1. DEL cyfalaf ..... 18
4.2. Y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) ..... 22

**5. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (HSSC) ..... 25**

5.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 25
5.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 31

**6. Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC) ..... 34**

6.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 34
6.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 39

**7. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) ..... 43**

7.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 43
7.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 48

**8. Addysg a Sgiliau (E&S) ..... 52**

8.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 52
8.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 57

**9. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ..... 61**

9.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 61
9.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 66

**10. Tai, Adfywio a Threftadaeth ..... 69**

10.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 69
10.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 74

**11. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ..... 77**

11.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol ..... 77
11.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn ..... 82

## 2. Cynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14

Gosododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt AC, Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14[1] gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 2 Hydref 2012. Yn ogystal, cyflwynwyd dogfen naratif,[2] tablau dyraniadau gwariant[3] a datganiad llafar.[4] Yn y rhagair i'r ddogfen naratif, mae'r Gweinidog yn datgan:

> Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb yr wyf yn eu cyhoeddi heddiw yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ledled Cymru yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu. Ar y cyd â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, mae ein pwyslais parhaus ar Dwf a Swyddi wedi llywio ein cynlluniau gwariant ac yn sicrhau bod ein blaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol presennol, ac yn ymateb iddo.
>
> Rydym wedi dweud o'r cychwyn cyntaf mai cyflwyno Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi yw ein prif flaenoriaeth yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Dechreuodd dirwasgiad arall yn economi'r DU ddiwedd y llynedd a phrin yw'r arwyddion bod adferiad sylweddol ar y gorwel. Rydym yn parhau i gredu nad yw camau Llywodraeth y DU i ysgogi twf economaidd yn mynd yn ddigon pell. Dan yr amodau hyn, rhaid i ni ddefnyddio pob dull sydd ar gael i ni i gynorthwyo pobl ledled Cymru a helpu i sbarduno'r economi. Dyna pam ein bod yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ni drwy ein Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi. Rydym yn chwilio am ymrwymiad tebyg gan Lywodraeth y DU er mwyn cyflawni'r nodau hyn.[5]

Nodwch fod **yr holl gyfrifiadau mewn termau real a nodir yn y papur hwn wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) Trysorlys Ei Mawrhydi** [fel y'u diwygwyd ym mis Medi 2012]. Yr amcangyfrifon a ddefnyddir yw: 2.7% ar gyfer 2012-13 a 2.5% ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Wrth edrych ar bŵer gwario cyffredinol Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ystyried a yw rhagolygon y datchwyddwyr CMC yn cynrychioli'n ddigonol y pwysau o ran costau ar y sector cyhoeddus, y mae cyflogau a chostau contractwyr o bosibl yn dylanwadu'n fwy arno.

---

[1] Llywodraeth Cymru, ***Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[2] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[3] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[4] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), ***Cyllideb Ddrafft 2013-14***, Datganiad Cabinet Llafar, 2 Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[5] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 1) [fel ar 29 Hydref 2012]

## 3. Yr effaith y mae polisïau'r DU i leihau'r diffyg ariannol yn ei chael ar floc Cymru.

Yn Arolwg Cynhwysfawr o Wariant 2010 (ACW 2010),[6] cyhoeddwyd cyfnod o ymatal digynsail mewn perthynas ag arian cyhoeddus er mwyn lleihau'r diffyg yng nghyllideb y DU.

Rhagwelwyd mai gostyngiad cyffredinol o £1.9 biliwn mewn termau real dros gyfnod yr arolwg o wariant (rhwng 2010-11 a 2014-15) fyddai'r effaith ar derfynau gwariant adrannol (DEL)[7] ym mloc Cymru pan gyhoeddwyd arolwg o wariant 2010. Mae newidiadau dilynol o ganlyniad i Gyllidebau'r DU[8] a'r rhagolygon chwyddiant diwygiedig yn golygu y rhagwelir ar hyn o bryd **y bydd gostyngiad cyffredinol o £2 biliwn mewn termau real ym mloc Cymru** dros gyfnod yr arolwg hwn o wariant. Dangosir y ffigurau diwygiedig ar gyfer yr elfennau DEL ym mloc Cymru yn **nhabl 1** a'r newidiadau mewn termau real yn **nhabl 2**.

**Tabl 1: Rhagolygon DEL refeniw a chyfalaf, rhwng 2010-11 a 2014-15 (mewn termau arian parod)**

*£ biliynau*

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Refeniw | 13.4 | 13.2 | 13.4 | 13.5 | 13.5 |
| DEL Cyfalaf | 1.8 | 1.4 | 1.2 | 1.1 | 1.1 |
| **Cyfanswm DEL** | **15.2** | **14.6** | **14.6** | **14.6** | **14.6** |

**Ffynhonnell: Trysorlys EM Cyllideb 2011 a 2012 (Tabl 2.4)**
Nid yw'r DEL refeniw yn cynnwys dibrisiad nad yw'n arian parod sydd wedi'i neilltuo.

**Tabl 2: Y newidiadau yn y rhagolygon DEL refeniw a chyfalaf mewn termau real o flwyddyn i flwyddyn**


| | rhwng 2010-11 a 2011-12 | | rhwng 2011-12 a 2012-13 | | rhwng 2012-13 a 2013-14 | | rhwng 2013-14 a 2014-15 | | Newid cyffredinol rhwng 2010-11 a 2014-15 | | Newid cyffredinol rhwng 2011-12 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* | *£ biliynau* | *canran* |
| DEL Refeniw | -0.5 | -3.7 | -0.2 | -1.2 | -0.2 | -1.7 | -0.3 | -2.4 | -1.2 | -8.8 | -0.7 | -5.2 |
| DEL Cyfalaf | -0.4 | -24.0 | -0.2 | -16.5 | -0.1 | -10.6 | -0.0 | -2.4 | -0.8 | -44.7 | -0.4 | -27.2 |
| **Cyfanswm DEL** | **-0.9** | **-6.1** | **-0.4** | **-2.6** | **-0.4** | **-2.4** | **-0.4** | **-2.4** | **-2.0** | **-13.0** | **-1.1** | **-7.3** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o **Gyllideb 2011** a **2012** Trysorlys EM (Tabl 2.4) a'r **datchwyddwyr CMC** (diweddarwyd Medi 2012)
1. Nid yw'r DEL refeniw yn cynnwys dibrisiad nad yw'n arian parod sydd wedi'i neilltuo.

[6] Trysorlys EM, ***Arolwg o Wariant 2010***, Hydref 2010 [fel ar 21 Hydref 2011]
[7] **Terfyn gwariant adrannol (DEL)** - fe'i gosodir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o adolygu gwariant. Dyma derfyn cyllideb aml-flwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb a ddyrennir i Lywodraeth Cymru, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi disgresiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath eu pennu ar sail fformiwla Barnett.
[8] Trysorlys EM, ***Cyllideb 2011***, Mawrth 2011 a ***Chyllideb 2012***, Mawrth 2012 [fel ar 21 Hydref 2011]

Mae ffigur 1 yn dangos y newid mewn termau real yng nghyfanswm y gwariant a reolir (TME)[9] o fewn bloc Cymru dros amser, sy'n cyfleu llymder y gostyngiadau yn y bloc ers blwyddyn ariannol 2009-10 ac effaith y gostyngiadau ar wariant cyhoeddus.  Mae hefyd yn dangos sut y mae'r rhagolygon ar gyfer y bloc yng nghyllideb ddrafft 2012-13 wedi newid yn sgîl y gyllideb ddrafft bresennol.

**Ffigur 1: Newid canrannol ym mloc Cymru rhwng 1999-2000 a 2014-15 mewn termau real, (1999-2000 yn flwyddyn gyfeirio)**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o gyllidebau Llywodraeth Cymru.

[9] **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** - cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).

Yn ddiweddar, nododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys (y Gwir Anrhydeddus Danny Alexander AS) y bydd yr ymatal mewn perthynas â gwariant cyhoeddus yn debygol o barhau hyd cyfnod yr arolwg nesaf o wariant. Dywedodd:

> It will take us longer to deal with the deficit than we expected.
> Here's why. The Eurozone crisis. Higher than expected inflation. The weight of our broken banking system suffocating businesses with growth potential. All of these things have been tougher for Britain than was forecast when we started down this road.
> ….
> It means we are now committed to further deficit reduction into the next Parliament.[10]

Aeth ymlaen i ddweud y byddai angen gwneud **£16 biliwn** yn rhagor o arbedion ym mlwyddyn ariannol 2015-16.

[10]Democratiaid Rhyddfrydol, ***Araith Danny Alexander yng Nghynhadledd yr Hydref y Democratiaid Rhyddfrydol***, 25 Medi 2012 [fel ar 1 Tachwedd 2012]

## 4. Trosolwg o Floc Cymru

Mae Atodlen 6 i Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14[11] yn dangos bod **£15.4 biliwn wedi cael ei ddarparu gan Drysorlys EM ar gyfer cyfanswm bloc Cymru** ym mlwyddyn ariannol 2013-14.

Daw'r ffigurau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru fel llinell sylfaen 2012-13 o Gyllideb Atodol 2012-13. Ni chafwyd ailddatganiad i ddileu'r dyraniadau yn ystod y flwyddyn nad ydynt yn rhai rheolaidd ac felly mae'r ffigurau'n cyfateb â'i gilydd yn union.

### *4.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)*[12]

**TME ym mloc Cymru: £15.4 biliwn yn 2013-14, a £15.6 biliwn yn 2014-15**.

**TME a ddyranwyd i adrannau Llywodraeth Cymru: £15.1 biliwn yn 2013-14, a £15.3 biliwn yn 2014-15.**

***Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol***

Mae **tabl 3** yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y gwariant a reolir ers y cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13).

Mae'r TME ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £106.8 miliwn, neu 0.7%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £101.6 miliwn, neu 0.7%.

Mae'r TME a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £144.5 miliwn, neu 1.0%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £134.8 miliwn, neu 0.9%. Mae hyn yn rhoi cynnydd cyffredinol o £279.3 miliwn dros gyfnod y gyllideb. Dyma ganlyniad net y dyraniad o £249.8 miliwn, gostyngiad o £2.1 filiwn o ganlyniad i drosglwyddiadau a chynnydd o £31.6 miliwn yn y gwariant a reolir yn flynyddol (AME).[13]

---

[11] Llywodraeth Cymru, *Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2013-14*, Hydref 2012 (Atodlen 6 tudalen 24) [fel ar 30 Hydref 2012]

[12] **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** - cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).

[13] **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** - mae'r AME yn llai rhagweladwy na'r gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant a bennir yn ôl y galw yn gyffredinol, ac felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau dros nifer benodol o flynyddoedd (er enghraifft, benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff hwn ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y mae modd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddim disgresiwn dros benderfynu sut y caiff ei ddyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl yr angen, ond rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd.

### *Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **Tabl 4** yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn i'r TME o fewn bloc Cymru (hynny yw, y dyraniadau i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol[14], arian wrth gefn a thaliadau uniongyrchol, ond gan hepgor y ddarpariaeth ar gyfer Swyddfa Cymru).

O gymharu â'r TME yn 2012-13, mae bloc Cymru wedi gostwng £69.7 miliwn neu 0.5% (gostyngiad o 2.9% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £166.6 miliwn, neu 1.1% (gostyngiad o 3.8% mewn termau real).

O gymharu â 2012-13, mae'r TME a ddyranwyd i adrannau Llywodraeth Cymru (neu'r prif grwpiau gwariant)[15] wedi gostwng £148.9 miliwn, neu 1.0% (gostyngiad o 3.4% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £15 miliwn, neu 0.1% (gostyngiad o 4.7% mewn termau real).

---

[14] Y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

[15] **Prif grwpiau gwariant (MEGs)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant (MEGs) yw lefel uchaf y manylion hyn ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gylch gwaith y Gweinidogion. Islaw lefel y MEG, nodir y gwariant yn ôl y meysydd rhaglenni gwariant (SPAs) ac, o fewn y rhain, ar ffurf camau gweithredu.

**Tabl 3: Newidiadau yng nghyfanswm y gwariant a reolir (TME) ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13.**

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,374,272 | 6,493,538 | 6,429,870 | 6,552,518 | 55,598 | 0.9 | 58,980 | 0.9 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,156,818 | 5,207,509 | 5,204,242 | 5,258,111 | 47,424 | 0.9 | 50,602 | 1.0 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 305,200 | 305,200 | 294,369 | 292,998 | -10,831 | -3.5 | -12,202 | -4.0 |
| Addysg a Sgiliau | 1,999,943 | 1,999,603 | 2,027,802 | 2,018,617 | 27,859 | 1.4 | 19,014 | 1.0 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 319,993 | 323,439 | 326,766 | 328,123 | 6,773 | 2.1 | 4,684 | 1.4 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 489,901 | 489,947 | 488,226 | 481,777 | -1,675 | -0.3 | -8,170 | -1.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 330,846 | 331,364 | 350,243 | 353,257 | 19,397 | 5.9 | 21,893 | 6.6 |
| **Cyfanswm dyraniadau TME Llywodraeth Cymru** | **14,976,973** | **15,150,600** | **15,121,518** | **15,285,401** | **144,545** | **1.0** | **134,801** | **0.9** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 220,214 | 245,582 | 213,205 | 224,955 | -7,009 | -3.2 | -20,627 | -8.4 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 49,483 | 90,855 | 18,923 | 78,501 | -30,560 | -61.8 | -12,354 | -13.6 |
| Comisiwn y Cynulliad | 49,950 | 51,098 | 49,950 | 51,098 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,103 | 4,093 | 3,911 | 3,901 | -192 | -4.7 | -192 | -4.7 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm TME Cymru** | **15,306,105** | **15,547,610** | **15,412,889** | **15,649,238** | **106,784** | **0.7** | **101,628** | **0.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.
* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn

## Tabl 4: Newidiadau yn y TME o flwyddyn i flwyddyn

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cronnus rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cronnus mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,544,950 | 6,429,870 | 6,552,518 | -115,080 | -1.8 | 7,568 | 0.1 | -271,906 | -4.2 | -308,169 | -4.7 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,147,024 | 5,204,242 | 5,258,111 | 57,218 | 1.1 | 111,087 | 2.2 | -69,715 | -1.4 | -142,278 | -2.8 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 316,628 | 294,369 | 292,998 | -22,259 | -7.0 | -23,630 | -7.5 | -29,439 | -9.3 | -37,748 | -11.9 |
| Addysg a Sgiliau | 2,033,131 | 2,027,802 | 2,018,617 | -5,329 | -0.3 | -14,514 | -0.7 | -54,788 | -2.7 | -111,782 | -5.5 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 340,522 | 326,766 | 328,123 | -13,756 | -4.0 | -12,399 | -3.6 | -21,726 | -6.4 | -28,210 | -8.3 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 527,138 | 488,226 | 481,777 | -38,912 | -7.4 | -45,361 | -8.6 | -50,820 | -9.6 | -68,576 | -13.0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 361,041 | 350,243 | 353,257 | -10,798 | -3.0 | -7,784 | -2.2 | -19,341 | -5.4 | -24,806 | -6.9 |
| **Cyfanswm dyraniadau TME Llywodraeth Cymru** | **15,270,434** | **15,121,518** | **15,285,401** | **-148,916** | **-1.0** | **14,967** | **0.1** | **-517,734** | **-3.4** | **-721,569** | **-4.7** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 150,042 | 213,205 | 224,955 | 63,163 | 42.1 | 74,913 | 49.9 | 57,963 | 38.6 | 64,073 | 42.7 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 5,422 | 18,923 | 78,501 | 13,501 | 249.0 | 73,079 | 1,347.8 | 13,039 | 240.5 | 69,296 | 1,278.1 |
| Comisiwn y Cynulliad | 47,477 | 49,950 | 51,098 | 2,473 | 5.2 | 3,621 | 7.6 | 1,255 | 2.6 | 1,159 | 2.4 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -116 | -2.4 | -228 | -4.8 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,853 | 3,911 | 3,901 | 58 | 1.5 | 48 | 1.2 | -37 | -1.0 | -140 | -3.6 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -16 | -2.4 | -31 | -4.8 |
| **Cyfanswm TME Cymru** | **15,482,610** | **15,412,889** | **15,649,238** | **-69,721** | **-0.5** | **166,628** | **1.1** | **-445,645** | **-2.9** | **-587,440** | **-3.8** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012)
* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.


## 4.2. *Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL)*

**Cyfanswm y DEL ym mloc Cymru yw £15.1 biliwn yn 2013-14, a £15.2 biliwn yn 2014-15.**

**Cyfanswm y DEL a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru yw £14.8 biliwn yn 2013-14, a £14.9 biliwn yn 2014-15.**

Mae ffigur 2 yn dangos cyfran cyfanswm y dyraniad DEL a roddir i bob MEG yn 2013-14. O hyn, gellir gweld, o'u cyfuno, bod y prif grwpiau gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynrychioli tri chwarter cyfanswm cyllideb DEL Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 2: Cyfran cyfanswm y dyraniad DEL a roddir i bob MEG yn 2013-14**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-1

### *Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae tabl 5 yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y DEL ers y cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13).

Mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £85 miliwn, neu 0.6%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £92.2 miliwn, neu 0.6%

Mae cyfanswm y DEL a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £122.6 miliwn, neu 0.8%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £125.1 miliwn, neu 0.8%. Mae hyn yn rhoi cynnydd cyffredinol o £247.7 miliwn dros gyfnod y gyllideb; dyma ganlyniad net dyraniadau o £249.8 miliwn a gostyngiad o £2.1 filiwn o ganlyniad i drosglwyddiadau.

### *Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **tabl 6** yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfanswm y DEL (refeniw a chyfalaf) ym mloc Cymru.

O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru wedi cynyddu £58.3 miliwn, neu 0.4% (gostyngiad o 2.1% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £167.9 miliwn, neu 1.1% (gostyngiad o 3.8% mewn termau real).

O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y dyraniad DEL a roddir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru wedi gostwng £20.7 miliwn, neu 0.1% (gostyngiad o 2.6% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £16.5 miliwn, neu 0.1% (gostyngiad o 4.7% mewn termau real).

Mae **ffigur 3** yn dangos cyfanswm y dyraniadau DEL a roddir i bob MEG ym mhob blwyddyn o gyfnod y gyllideb, ac mae **ffigur 4** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm y DEL a roddir i bob MEG rhwng 2012-13 a 2013-14 o gymharu â'r newid cyffredinol yng nghyfanswm y DEL sy'n mynd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru (gostyngiad o 0.1%). O hyn, gellir gweld yr hyn a ganlyn:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y DEL rhwng 2012-13 a 2013-14 yn y MEG **Tai, Adfywio a Threftadaeth (HRH)**, gyda gostyngiad o 6.1% (gostyngiad o 8.4% mewn termau real).
- Gwelir yr unig gynnydd canrannol yng nghyfanswm y DEL yn y MEG **Llywodraeth Leol a Chymunedau**, gyda chynnydd o 1.1% (gostyngiad o 1.4% mewn termau real).

**Tabl 5: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,293,758 | 6,294,146 | 6,335,296 | 6,339,090 | 41,538 | 0.7 | 44,944 | 0.7 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,131,128 | 5,154,269 | 5,151,836 | 5,204,677 | 20,708 | 0.4 | 50,408 | 1.0 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 263,798 | 263,798 | 274,369 | 272,998 | 10,571 | 4.0 | 9,200 | 3.5 |
| Addysg a Sgiliau | 1,838,658 | 1,846,293 | 1,850,933 | 1,835,468 | 12,275 | 0.7 | -10,825 | -0.6 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 319,993 | 323,439 | 326,766 | 328,123 | 6,773 | 2.1 | 4,684 | 1.4 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 542,161 | 542,207 | 556,486 | 550,037 | 14,325 | 2.6 | 7,830 | 1.4 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 332,212 | 332,212 | 348,609 | 351,105 | 16,397 | 4.9 | 18,893 | 5.7 |
| **Cyfanswm dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru** | **14,721,708** | **14,756,364** | **14,844,295** | **14,881,498** | **122,587** | **0.8** | **125,134** | **0.8** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 220,214 | 245,582 | 213,205 | 224,955 | -7,009 | -3.2 | -20,627 | -8.4 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 49,483 | 90,855 | 18,923 | 78,501 | -30,560 | -61.8 | -12,354 | -13.6 |
| Comisiwn y Cynulliad | 49,450 | 50,598 | 49,450 | 50,598 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,103 | 4,093 | 4,103 | 4,093 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm DEL Cymru** | **15,050,340** | **15,152,874** | **15,135,358** | **15,245,027** | **85,018** | **0.6** | **92,153** | **0.6** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14
* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

## Tabl 6: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL o flwyddyn i flwyddyn

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,343,240 | 6,335,296 | 6,339,090 | -7,944 | -0.1 | -4,150 | -0.1 | -162,463 | -2.6 | -309,603 | -4.9 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 5,095,639 | 5,151,836 | 5,204,677 | 56,197 | 1.1 | 109,038 | 2.1 | -69,458 | -1.4 | -141,753 | -2.8 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 275,226 | 274,369 | 272,998 | -857 | -0.3 | -2,228 | -0.8 | -7,549 | -2.7 | -15,383 | -5.6 |
| Addysg a Sgiliau | 1,854,822 | 1,850,933 | 1,835,468 | -3,889 | -0.2 | -19,354 | -1.0 | -49,034 | -2.6 | -107,797 | -5.8 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 340,522 | 326,766 | 328,123 | -13,756 | -4.0 | -12,399 | -3.6 | -21,726 | -6.4 | -28,210 | -8.3 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 592,648 | 556,486 | 550,037 | -36,162 | -6.1 | -42,611 | -7.2 | -49,735 | -8.4 | -69,115 | -11.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 362,883 | 348,609 | 351,105 | -14,274 | -3.9 | -11,778 | -3.2 | -22,777 | -6.3 | -28,696 | -7.9 |
| **Cyfanswm dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru** | **14,864,980** | **14,844,295** | **14,881,498** | **-20,685** | **-0.1** | **16,518** | **0.1** | **-382,741** | **-2.6** | **-700,556** | **-4.7** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn | 150,042 | 213,205 | 224,955 | 63,163 | 42.1 | 74,913 | 49.9 | 57,963 | 38.6 | 64,073 | 42.7 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 5,422 | 18,923 | 78,501 | 13,501 | 249.0 | 73,079 | 1,347.8 | 13,039 | 240.5 | 69,296 | 1,278.1 |
| Comisiwn y Cynulliad | 47,227 | 49,450 | 50,598 | 2,223 | 4.7 | 3,371 | 7.1 | 1,017 | 2.2 | 933 | 2.0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,740 | 4,740 | 4,740 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -116 | -2.4 | -228 | -4.8 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,034 | 4,103 | 4,093 | 69 | 1.7 | 59 | 1.5 | -31 | -0.8 | -138 | -3.4 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -16 | -2.4 | -31 | -4.8 |
| **Cyfanswm DEL Cymru** | **15,077,087** | **15,135,358** | **15,245,027** | **58,271** | **0.4** | **167,940** | **1.1** | **-310,884** | **-2.1** | **-566,651** | **-3.8** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012)
* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

**Ffigur 3: Cyfanswm y DEL yn ôl y prif grwpiau gwariant mewn termau arian parod, rhwng 2012-13 a 2014-15**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

**Ffigur 4: Newid canrannol yng nghyfanswm y DEL rhwng 2012-13 a 2013-14 (mewn termau arian parod)**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## 5. DEL refeniw

**Y DEL refeniw yn y bloc yw £14 biliwn yn 2013-14, ac yn 2014-15.**

**Cyfanswm y DEL a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru yw £13.7 biliwn yn 2013-14, a £13.8 biliwn yn 2014-15.**

**Yr arian refeniw wrth gefn** yn 2013-14 yw £213.2 miliwn, neu 1.5% o'r DEL refeniw yn y bloc. Mae hyn yn debyg i lefel yr arian refeniw wrth gefn yng nghyllideb ddrafft 2012-13 (1.4% o DEL refeniw).

***Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol***

Mae **tabl 7** yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y DEL refeniw ers y cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae'r refeniw DEL ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £0.7 miliwn, neu 0.0%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi gostwng £3.5 miliwn, neu 0.0%.

Mae cyfanswm y DEL refeniw a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £7.7 miliwn, neu 0.1%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £17.1 miliwn, neu 0.1%. Mae hyn yn golygu cynnydd cyffredinol o £24.8 miliwn dros gyfnod y gyllideb; dyma ganlyniad net dyraniadau o £26.9 miliwn a gostyngiad o £2.1 filiwn o ganlyniad i drosglwyddiadau.

***Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn***

Mae **tabl 8** yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfanswm y DEL refeniw ym mloc Cymru.

O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y DEL refeniw ym mloc Cymru wedi cynyddu £141.6 miliwn, neu 1.0% (gostyngiad o 1.4% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £198.2 miliwn, neu 1.4% (gostyngiad o 3.5% mewn termau real).


O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y dyraniad DEL refeniw a roddir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £77.2 miliwn, neu 0.6% (gostyngiad o 1.9% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol o £121.3 miliwn, neu 0.9% (gostyngiad o 4.0% mewn termau real).

Mae **ffigur 5** yn dangos cyfanswm y dyraniadau DEL refeniw a roddir i bob MEG rhwng 2012-13 a 2013-14 o'i gymharu â'r newid cyffredinol yng nghyfanswm y DEL refeniw a roddir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru (cynnydd o 0.6%). O hyn, gellir gweld yr hyn a ganlyn:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y DEL refeniw rhwng 2012-13 a 2013-14 yn y MEG **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA)**, gyda gostyngiad o 3.3% (gostyngiad o 5.7% mewn termau real).

  Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn y MEG **Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)**, gyda chynnydd o 3.1% (cynnydd o 0.6% mewn termau real).

**Ffigur 5: Newid canrannol yn y DEL refeniw fesul prif grŵp gwariant mewn termau arian parod, rhwng 2012-13 a 2014-15**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

**Tabl 7: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL refeniw ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,079,280 | 6,079,668 | 6,091,746 | 6,095,540 | 12,466 | 0.2 | 15,872 | 0.3 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 4,897,837 | 4,920,978 | 4,899,317 | 4,926,458 | 1,480 | 0.0 | 5,480 | 0.1 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 184,428 | 184,428 | 182,299 | 183,628 | -2,129 | -1.2 | -800 | -0.4 |
| Addysg a Sgiliau | 1,694,824 | 1,702,459 | 1,673,799 | 1,681,634 | -21,025 | -1.2 | -20,825 | -1.2 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 265,755 | 269,201 | 264,455 | 265,856 | -1,300 | -0.5 | -3,345 | -1.2 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 279,597 | 279,643 | 281,422 | 281,473 | 1,825 | 0.7 | 1,830 | 0.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 306,899 | 306,899 | 323,296 | 325,792 | 16,397 | 5.3 | 18,893 | 6.2 |
| **Cyfanswm refeniw DEL Llywodraeth Cymru** | 13,708,620 | 13,743,276 | 13,716,334 | 13,760,381 | **7,714** | **0.1** | **17,105** | **0.1** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 220,214 | 245,582 | 213,205 | 224,955 | -7,009 | -3.2 | -20,627 | -8.4 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 47,750 | 48,557 | 47,750 | 48,557 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,724 | 4,724 | 4,724 | 4,724 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,090 | 4,080 | 4,090 | 4,080 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm DEL refeniw Cymru** | **13,986,040** | **14,046,861** | **13,986,745** | **14,043,339** | **705** | **0.0** | **-3,522** | **-0.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14
* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

## Tabl 8: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL refeniw o flwyddyn i flwyddyn

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 6,081,527 | 6,091,746 | 6,095,540 | 10,219 | 0.2 | 14,013 | 0.2 | -138,360 | -2.3 | -279,704 | -4.6 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 4,826,288 | 4,899,317 | 4,926,458 | 73,029 | 1.5 | 100,170 | 2.1 | -46,467 | -1.0 | -137,214 | -2.8 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 176,870 | 182,299 | 183,628 | 5,429 | 3.1 | 6,758 | 3.8 | 983 | 0.6 | -2,090 | -1.2 |
| Addysg a Sgiliau | 1,676,529 | 1,673,799 | 1,681,634 | -2,730 | -0.2 | 5,105 | 0.3 | -43,554 | -2.6 | -75,926 | -4.5 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 265,153 | 264,455 | 265,856 | -698 | -0.3 | 703 | 0.3 | -7,148 | -2.7 | -12,107 | -4.6 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 278,330 | 281,422 | 281,473 | 3,092 | 1.1 | 3,143 | 1.1 | -3,772 | -1.4 | -10,420 | -3.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 334,419 | 323,296 | 325,792 | -11,123 | -3.3 | -8,627 | -2.6 | -19,008 | -5.7 | -24,325 | -7.3 |
| **Cyfanswm refeniw DEL Llywodraeth Cymru** | **13,639,116** | **13,716,334** | **13,760,381** | **77,218** | **0.6** | **121,265** | **0.9** | **-257,327** | **-1.9** | **-541,787** | **-4.0** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 150,042 | 213,205 | 224,955 | 63,163 | 42.1 | 74,913 | 49.9 | 57,963 | 38.6 | 64,073 | 42.7 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 46,565 | 47,750 | 48,557 | 1,185 | 2.5 | 1,992 | 4.3 | 20 | 0.0 | -348 | -0.7 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,724 | 4,724 | 4,724 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -115 | -2.4 | -228 | -4.8 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,020 | 4,090 | 4,080 | 70 | 1.7 | 60 | 1.5 | -30 | -0.7 | -137 | -3.4 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 642 | 642 | 642 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -16 | -2.4 | -31 | -4.8 |
| **Cyfanswm DEL refeniw Cymru** | **13,845,109** | **13,986,745** | **14,043,339** | **141,636** | **1.0** | **198,230** | **1.4** | **-199,504** | **-1.4** | **-478,457** | **-3.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012)

* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

## 5.1. DEL cyfalaf

**Y DEL cyfalaf ym mloc Cymru yw £1.1 biliwn yn 2013-14, a £1.2 biliwn yn 2014-15.**

**Y DEL cyfalaf a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru yw £1.1 biliwn yn 2013-14, ac yn 2014-15**.

Cyfanswm yr **arian cyfalaf wrth gefn** yn 2013-14 yw £18.9 miliwn, neu 1.6% o'r DEL cyfalaf yn y bloc. Mae hyn yn llawer is na lefel yr arian cyfalaf wrth gefn yng nghyllideb ddrafft 2012-13 (DEL cyfalaf o 4.2%).

***Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol***

Mae **tabl 9** yn dangos y newidiadau yn y DEL cyfalaf ers y cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae'r DEL cyfalaf ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £84.3 miliwn, neu 7.9%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £95.7 miliwn, neu 8.7%.

Mae'r DEL cyfalaf a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £114.9 miliwn, neu 11.3%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £108 miliwn, neu 10.7%. Mae hyn yn rhoi cynnydd cyffredinol o bron i £223 miliwn dros gyfnod y gyllideb; dyma ganlyniad y dyraniadau o'r arian cyfalaf wrth gefn.

Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi bod dyraniadau cyfalaf ychwanegol o **£175 miliwn** dros gyfnod y gyllideb. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi egluro bod hyn yn cyfeirio at ddyraniadau cyfalaf yn unig na chyhoeddwyd yn unlle arall cyn hynny. Dywedodd wrth y Pwyllgor Cyllid fod y penderfyniad hwn wedi'i wneud am y rheswm a ganlyn:

> …partly to try to improve transparency in terms of information, and to make a clear distinction between funding for the projects we had previously announced and new spending decisions in this draft budget.[16]

Felly, mae'r gwahaniaeth rhwng y dyraniadau pellach o £223 miliwn o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol, a'r £175 miliwn ychwanegol a nodwyd, yn cynnwys y dyraniadau cyfalaf a gyhoeddwyd eisoes mewn man arall. Er enghraifft, dyfarniadau rheolaidd a wnaed o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog.[17]

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, **Cofnod y Trafodion [para 251]**, 11 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]
[17] Fel y nodir yn Atodiad 3 i ***Gyllideb Atodol 2012-13***, Mehefin 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

### *Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae [tabl 10] yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfanswm y DEL cyfalaf ym mloc Cymru.


O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y DEL cyfalaf ym mloc Cymru wedi gostwng £83.4 miliwn, neu 6.8% (gostyngiad o 9.0% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol o £30.3 miliwn, neu 2.5% (gostyngiad o 7.2% mewn termau real).

O gymharu â 2012-13, mae cyfanswm y dyraniad DEL cyfalaf a roddir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru wedi gostwng £97.9 miliwn, neu 8.0% (gostyngiad o 10.2% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol o £104.7 miliwn, neu 8.5% (gostyngiad o 13.0% mewn termau real).

Mae [ffigur 6] yn dangos y newid canrannol yn y dyraniadau DEL cyfalaf a roddir i bob MEG rhwng 2012-13 a 2013-14 o'i gymharu â'r newid cyffredinol yng nghyfanswm y DEL cyfalaf a roddir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru (gostyngiad o 8.0%). O hyn, gellir gweld yr hyn a ganlyn:

- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y DEL cyfalaf rhwng 2012-13 a 2013-14 ym MEG **yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (ESD)**, gyda gostyngiad o 17.3% (gostyngiad o 19.3% mewn termau real).
- Nid oes cynnydd canrannol yn y DEL cyfalaf ar gyfer unrhyw brif grŵp gwariant rhwng 2012-13 a 2013-14.

**Ffigur 6: Newid canrannol yn y DEL cyfalaf yn ôl y prif grwpiau gwariant mewn termau arian parod, rhwng 2012-13 a 2014-15**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

**Tabl 9: Newidiadau yn y DEL cyfalaf ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 214,478 | 214,478 | 243,550 | 243,550 | 29,072 | 13.6 | 29,072 | 13.6 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 233,291 | 233,291 | 252,519 | 278,219 | 19,228 | 8.2 | 44,928 | 19.3 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 79,370 | 79,370 | 92,070 | 89,370 | 12,700 | 16.0 | 10,000 | 12.6 |
| Addysg a Sgiliau | 143,834 | 143,834 | 177,134 | 153,834 | 33,300 | 23.2 | 10,000 | 7.0 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 54,238 | 54,238 | 62,311 | 62,267 | 8,073 | 14.9 | 8,029 | 14.8 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 262,564 | 262,564 | 275,064 | 268,564 | 12,500 | 4.8 | 6,000 | 2.3 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 25,313 | 25,313 | 25,313 | 25,313 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm dyraniadau DEL cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **1,013,088** | **1,013,088** | **1,127,961** | **1,121,117** | **114,873** | **11.3** | **108,029** | **10.7** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 49,483 | 90,855 | 18,923 | 78,501 | -30,560 | -61.8 | -12,354 | -13.6 |
| Comisiwn y Cynulliad | 1,700 | 2,041 | 1,700 | 2,041 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 16 | 16 | 16 | 16 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 13 | 13 | 13 | 13 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ffioedd Uniongyrchol | **0** | **0** | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm DEL cyfalaf Cymru** | **1,064,300** | **1,106,013** | **1,148,613** | **1,201,688** | **84,313** | **7.9** | **95,675** | **8.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

## Tabl 10: Newidiadau yn y DEL cyfalaf o flwyddyn i flwyddyn

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 261,713 | 243,550 | 243,550 | -18,163 | -6.9 | -18,163 | -6.9 | -24,103 | -9.2 | -29,899 | -11.4 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 269,351 | 252,519 | 278,219 | -16,832 | -6.2 | 8,868 | 3.3 | -22,991 | -8.5 | -4,538 | -1.7 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 98,356 | 92,070 | 89,370 | -6,286 | -6.4 | -8,986 | -9.1 | -8,532 | -8.7 | -13,292 | -13.5 |
| Addysg a Sgiliau | 178,293 | 177,134 | 153,834 | -1,159 | -0.7 | -24,459 | -13.7 | -5,479 | -3.1 | -31,872 | -17.9 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 75,369 | 62,311 | 62,267 | -13,058 | -17.3 | -13,102 | -17.4 | -14,578 | -19.3 | -16,102 | -21.4 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | 314,318 | 275,064 | 268,564 | -39,254 | -12.5 | -45,754 | -14.6 | -45,963 | -14.6 | -58,695 | -18.7 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 28,464 | 25,313 | 25,313 | -3,151 | -11.1 | -3,151 | -11.1 | -3,768 | -13.2 | -4,371 | -15.4 |
| **Cyfanswm dyraniadau DEL cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **1,225,864** | **1,127,961** | **1,121,117** | **-97,903** | **-8.0** | **-104,747** | **-8.5** | **-125,414** | **-10.2** | **-158,769** | **-13.0** |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn* | 5,422 | 18,923 | 78,501 | 13,501 | 249.0 | 73,079 | 1,347.8 | 13,039 | 240.5 | 69,296 | 1,278.1 |
| Comisiwn y Cynulliad | 662 | 1,700 | 2,041 | 1,038 | 156.8 | 1,379 | 208.3 | 997 | 150.5 | 1,281 | 193.5 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 16 | 16 | 16 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -0 | -2.4 | -1 | -4.8 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 14 | 13 | 13 | -1 | -7.1 | -1 | -7.1 | -1 | -9.4 | -2 | -11.6 |
| Ffioedd Uniongyrchol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm DEL cyfalaf Cymru** | **1,231,978** | **1,148,613** | **1,201,688** | **-83,365** | **-6.8** | **-30,290** | **-2.5** | **-111,380** | **-9.0** | **-88,194** | **-7.2** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012

* Nodwch fod y newidiadau mawr yn y cronfeydd wrth gefn yn gamarweiniol, gan fod yr arian wrth gefn ar gyfer 2012-13 eisoes wedi cael ei ddyrannu'n rhannol o fewn y flwyddyn, tra bo'r arian wrth gefn ar gyfer blynyddoedd i ddod yn aros wrth gefn.

## 5.2. Y gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

**Yr AME ym mloc Cymru yw £277.5 miliwn yn 2013-14, a £404.2 miliwn yn 2014-15.**

**Yr AME a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru yw £277.2 miliwn yn 2013-14, a £403.9 miliwn yn 2014-15.**

***Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol***

Mae **tabl 11** yn dangos y newidiadau yn yr AME ers y cynlluniau dangosol blaenorol.

Mae'r AME ym mloc Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £21.8 miliwn, neu 8.5%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £9.5 miliwn, neu 2.4%.

Mae'r AME a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £22 miliwn, neu 8.6%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £9.7 miliwn, neu 2.5%.

***Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn***

Mae **tabl 12** yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfanswm yr AME ym mloc Cymru.

O gymharu â 2012-13, mae'r AME ym mloc Cymru wedi gostwng £128 miliwn, neu 31.6% (gostyngiad o 33.2% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol o £1.3 filiwn, neu 0.3% (gostyngiad o 5.1% mewn termau real).

O gymharu â 2012-13, mae'r AME a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru wedi gostwng £128.2 miliwn, neu 31.6% (gostyngiad o 33.3% mewn termau real). Dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15), mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol o £1.6 filiwn, neu 0.4% (gostyngiad o 5.2% mewn termau real).

**Tabl 11: Newidiadau yn yr AME ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13.**

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 80,514 | 199,392 | 94,574 | 213,428 | 14,060 | 17.5 | 14,036 | 7.0 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 25,690 | 53,240 | 52,406 | 53,434 | 26,716 | 104.0 | 194 | 0.4 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 41,402 | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 |
| Addysg a Sgiliau | 161,285 | 153,310 | 176,869 | 183,149 | 15,584 | 9.7 | 29,839 | 19.5 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | -52,260 | -52,260 | -68,260 | -68,260 | -16,000 | -30.6 | -16,000 | -30.6 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -1,366 | -848 | 1,634 | 2,152 | 3,000 | 219.6 | 3,000 | 353.8 |
| **Cyfanswm dyraniadau AME Llywodraeth Cymru** | **255,265** | **394,236** | **277,223** | **403,903** | **21,958** | **8.6** | **9,667** | **2.5** |
| Comisiwn y Cynulliad | 500 | 500 | 500 | 500 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -192 | -192 | -192 | -192 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm AME Cymru** | **255,765** | **394,736** | **277,531** | **404,211** | **21,766** | **8.5** | **9,475** | **2.4** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 12: Newidiadau yn yr AME o flwyddyn i flwyddyn

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant | 201,710 | 94,574 | 213,428 | -107,136 | -53.1 | 11,718 | 5.8 | -109,443 | -54.3 | 1,434 | 0.7 |
| Llywodraeth Leol a Chymunedau | 51,385 | 52,406 | 53,434 | 1,021 | 2.0 | 2,049 | 4.0 | -257 | -0.5 | -526 | -1.0 |
| Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 | -21,890 | -52.9 | -22,366 | -54.0 |
| Addysg a Sgiliau | 178,309 | 176,869 | 183,149 | -1,440 | -0.8 | 4,840 | 2.7 | -5,754 | -3.2 | -3,985 | -2.2 |
| Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Tai, Adfywio a Threftadaeth | -65,510 | -68,260 | -68,260 | -2,750 | 4.2 | -2,750 | 4.2 | -1,085 | -1.7 | 539 | 0.8 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | -1,842 | 1,634 | 2,152 | 3,476 | -188.7 | 3,994 | -216.8 | 3,436 | 186.5 | 3,890 | 211.2 |
| **Cyfanswm dyraniadau AME Llywodraeth Cymru** | **405,454** | **277,223** | **403,903** | **-128,231** | **-31.6** | **-1,551** | **-0.4** | **-134,993** | **-33.3** | **-21,013** | **-5.2** |
| Comisiwn y Cynulliad | 250 | 500 | 500 | 250 | 100.0 | 250 | 100.0 | 238 | 95.1 | 226 | 90.4 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -181 | -192 | -192 | -11 | 6.1 | -11 | -6.1 | -6 | -3.5 | -2 | -1.0 |
| **Cyfanswm AME Cymru** | **405,523** | **277,531** | **404,211** | **-127,992** | **-31.6** | **-1,312** | **-0.3** | **-134,761** | **-33.2** | **-20,789** | **-5.1** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012)

# 6. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (HSSC)

Mae'r adran hon yn nodi'r manylion am y ffigurau cyffredinol[18] ar gyfer y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi'r cynlluniau dangosol y llynedd ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu[19]/meysydd rhaglenni gwariant (SPAs)[20] y MEG.

Mae'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i gyfrif am **42.7%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

## *6.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 13** yn dangos y manylion am y dyraniadau yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar lefel SPA o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

### *Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £41.5 miliwn, neu 0.7%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £44.9 miliwn, neu 0.7%.

Fel y dangosir yn **nabl 14**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- drosglwyddiadau net o £17.6 miliwn yn 2013-14 a £21 miliwn yn 2014-15 i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; a
- dyraniadau ychwanegol o £24 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn y naill flwyddyn a'r llall.

### *DEL refeniw*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o brif grwpiau gwariant eraill. Mae'r newidiadau hyn yn gyfrifol am y cynnydd yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£12.5 miliwn (0.2%) yn 2013-14 a £15.9 miliwn (0.3%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod ac mae **tabl 14** yn dangos y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

---

[18] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

[19] **Camau gweithredu** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y camau gweithredu yw'r ffurf fanylaf a gyhoeddir yn nogfennau'r gyllideb ac maent yn nodi meysydd polisi neu fentrau. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r camau gweithredu o reidrwydd yn rhoi manylion am y dyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol.

[20] **Maes rhaglenni gwariant (SPA)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn nifer o lefelau o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylder o dan y prif grwpiau gwariant ac maent yn diffinio'r grwpiau dyrannu penodol yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

- **Trosglwyddiad o £27.5 miliwn i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau. Dyma ganlyniad trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau o 1 Ebrill 2012. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £0.7 miliwn o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae hyn yn ymwneud â throsglwyddo'r grant trefniadau diogelu rhag colli rhyddid i'r grant cymorth refeniw. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £10.2 miliwn o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae hyn yn ymwneud â'r ad-daliadau gan y GIG ar gyfer prosiectau Buddsoddi i Arbed. Yn 2014-15, roedd trosglwyddiad tebyg o £6.6 miliwn.
- **Trosglwyddiad o £2 filiwn o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae hyn yn ymwneud â Thribiwnlysoedd Arolygu Iechyd Meddwl ac mae'n digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £2.1 filiwn o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 i MEG yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys taliadau i Brifysgol Caerdydd i gefnogi hyfforddiant meddygol a deintyddol. Mae'r trosglwyddiad hwn yn £2.3 filiwn yn 2014-15.

Ceir nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Nodir y rhain yn **nabl 15**.

### *DEL cyfalaf*

Bu nifer o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o gronfeydd canolog wrth gefn a rhwng y prif grwpiau gwariant. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL cyfalaf (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£29.1 miliwn (13.6%) yn 2013-14 a 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod ac mae **tabl 14** yn cynnwys manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **£19 miliwn i brosiectau yn ymwneud â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**[21] yn 2013-14 a £24 miliwn yn 2014-15. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £5 miliwn yn 2013-14 i Gweledigaeth Iechyd Abertawe; mae hyn yn ymwneud ag ailddatblygu Ysbyty Morriston (£13 miliwn ychwanegol yn 2014-15);
    - £9 miliwn yn 2013-14 i Dechrau'n Deg (£4 miliwn ychwanegol yn 2014-15);
    - £3 miliwn yn 2013-14 i gefnogi darparu llety yn yr Uned Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion yn Ysbyty Prifysgol Llandochau yn lle'r llety yn Ysbyty'r Eglwys Newydd sydd wedi dyddio (£7 miliwn ychwanegol yn 2014-15); a
    - £2 filiwn yn 2013-14 i ailgyflunio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn Ysbyty Glanrhyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- **£5 miliwn i brosiectau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog** yn 2013-14. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £2 filiwn i gefnogi'r broses dreigl o ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Caerdydd, gan gynnwys datblygu Canolfan Iechyd a Thriniaeth Leol; a
    - £3 miliwn i Dechrau'n Deg.
- **Trosglwyddiad o £5.1 miliwn i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14 o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau. Dyma ganlyniad trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau o 1 Ebrill 2012. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

Nid oes dim trosglwyddiadau cyfalaf mewnol yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae'r AME ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £14.1 miliwn, neu 17.5%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £14 miliwn, neu 7.0%. Nodir bod hyn oherwydd y cynnydd disgwyliedig yng nghost y darpariaethau ar gyfer ceisiadau esgeulustod clinigol Cronfa Risg Cymru.[22]

---

[21] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi***, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

[22] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 37) [fel ar 29 Hydref 2012]

**Tabl 13: Newidiadau yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 5,507,030 | 5,497,418 | 5,494,916 | 5,489,435 | -12,114 | -0.2 | -7,983 | -0.1 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 205,374 | 205,374 | 228,904 | 228,179 | 23,530 | 11.5 | 22,805 | 11.1 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 157,548 | 157,548 | 158,001 | 158,001 | 453 | 0.3 | 453 | 0.3 |
| Gwasanethau Cymdeithasol | 200,161 | 210,161 | 199,763 | 209,763 | -398 | -0.2 | -398 | -0.2 |
| CAFCASS Cymru | 9,167 | 9,167 | 10,162 | 10,162 | 995 | 10.9 | 995 | 10.9 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **6,079,280** | **6,079,668** | **6,091,746** | **6,095,540** | **12,466** | **0.2** | **15,872** | **0.3** |
| **CYFANSWM DEL** | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 205,275 | 205,275 | 217,275 | 225,275 | 12,000 | 5.8 | 20,000 | 9.7 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 0 | 0 | 5,072 | 5,072 | 5,072 | .. | 5,072 | .. |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 4,492 | 4,492 | 4,492 | 4,492 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 4,711 | 4,711 | 16,711 | 8,711 | 12,000 | 254.7 | 4,000 | 84.9 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **214,478** | **214,478** | **243,550** | **243,550** | **29,072** | **13.6** | **29,072** | **13.6** |
| **AME** | | | | | | | | |
| Diffygion a Darpariaethau'r GIG | 80,514 | 199,392 | 94,574 | 213,428 | 14,060 | 17.5 | 14,036 | 7.0 |
| **CYFANSWM AME** | **80,514** | **199,392** | **94,574** | **213,428** | **14,060** | **17.5** | **14,036** | **7.0** |
| DEL Refeniw | 6,079,280 | 6,079,668 | 6,091,746 | 6,095,540 | 12,466 | 0.2 | 15,872 | 0.3 |
| DEL Cyfalaf | 214,478 | 214,478 | 243,550 | 243,550 | 29,072 | 13.6 | 29,072 | 13.6 |
| **CYFANSWM DEL** | **6,293,758** | **6,294,146** | **6,335,296** | **6,339,090** | **41,538** | **0.7** | **44,944** | **0.7** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 80,514 | 199,392 | 94,574 | 213,428 | 14,060 | 17.5 | 14,036 | 7.0 |
| **CYFANSWM IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A PHLANT** | **6,374,272** | **6,493,538** | **6,429,870** | **6,552,518** | **55,598** | **0.9** | **58,980** | **0.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 14: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| LGC: Camddefnyddio sylweddau | -27.5 | -27.5 | HSSC: Rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar waith | 27.5 | 27.5 | Trosglwyddiadau rheolaidd i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau |
| HSSC: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -0.7 | -0.7 | LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | 0.7 | 0.7 | I gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud ag asesiadau Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid a Rheoliadau Gwelyau Haul - aeth hwn i'r grant cymorth refeniw (RSG) |
| HSSC: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -2.0 | -2.0 | CSA: Tribiwnlysoedd | 2.0 | 2.0 | Ar gyfer y Tribiwnlys Arolygu Iechyd Meddwl |
| HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -10.2 | -6.6 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | 10.2 | 6.6 | Ad-daliadau gan y GIG ar gyfer prosiectau Buddsoddi i Arbed |
| HSSC: Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | -2.1 | -2.3 | E&S: Addysg uwch | 2.1 | 2.3 | Taliadau i Brifysgol Caerdydd ar gyfer hyfforddiant meddygol a deintyddol. |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG HSSC 2013-14** | | | | | | **12.5** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG HSSC 2014-15** | | | | | | **15.9** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) | -5.0 | -13.0 | HSSC: Darparu Gwasanaethau'r GIG | 5.0 | 13.0 | Gweledigaeth Iechyd Abertawe - ailddatblygu Ysbyty Treforys |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -9.0 | -4.0 | HSSC: Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 9.0 | 4.0 | Dechrau'n Deg |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -3.0 | -7.0 | HSSC: Darparu Gwasanaethau'r GIG | 3.0 | 7.0 | Uned Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion yn Ysbyty Athrofaol Llandochau |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -2.0 | | HSSC: Darparu Gwasanaethau'r GIG | 2.0 | | Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn Ysbyty Glanrhyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr |
| LGC: Camddefnyddio sylweddau | -5.1 | -5.1 | HSSC: Rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar waith | 5.1 | 5.1 | Trosglwyddiadau rheolaidd i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -2.0 | | HSSC: Darparu Gwasanaethau'r GIG | 2.0 | | Cefnogi ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Caerdydd |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -3.0 | | HSSC: Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 3.0 | | Dechrau'n Deg |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG HSSC 2013-14** | | | | | | **29.1** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG HSSC 2014-15** | | | | | | **29.1** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG HSSC 2013-14** | | | | | | **41.6** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG HSSC 2014-15** | | | | | | **45.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 15: Trosglwyddiadau rhwng y camau gweithredu yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn 2013-14

| O | 2013-14 (£m) | i | 2013-14 (£m) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | |
| Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | -1.03 | Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 1.03 | mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | -0.63 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.63 | mewn perthynas â Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newyddanedig |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -1.00 | Darparu Rhaglenni CAFCASS Cymru | 1.00 | mewn perthynas ag effaith gylchol arian 2012-13 ar gyfer costau rhedeg |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -13.79 | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 13.79 | Effaith gylchol arian 2012-13 ar gyfer contractau gofal sylfaenol |
| Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | -0.10 | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 0.10 | mewn perthynas ag arian ar gyfer contractau gofal sylfaenol |
| Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -2.30 | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 2.30 | Ariannu gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | -1.07 | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 1.07 | Arian ar gyfer grant deietetig |
| Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | -30.43 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | 30.43 | mewn perthynas â gwasanaethau a rennir |
| Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | -0.03 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | 0.03 | Arian Agenda ar gyfer Newid ar gyfer rhwydweithiau canser |
| Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | -0.02 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.02 | mewn perthynas ag incwm trawsffiniol i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | -0.10 | Cyflenwi Gwasanaethau' rGIG sydd wedi'u Targedu | 0.10 | mewn perthynas â NICE |
| Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | -0.02 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | 0.02 | Aildrefnu cyllidebau |
| Cefnogi Addysg a Hyforddiant yng Ngweithlu'r GIG | -0.06 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | 0.06 | mewn perthynas â'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -0.93 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.93 | Arian i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -0.40 | Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | 0.40 | Aildrefnu targedau addysg a hyfforddiant |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -3.00 | Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | 3.00 | mewn perthynas â'r Mesur Iechyd Meddwl |
| Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -0.23 | Cyngor Gofal Cymru | 0.23 | mewn perthynas â chostau dibrisio |
| Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | -0.12 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.12 | Arian i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | -0.02 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | 0.02 | Aildrefnu cyllidebau |
| Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | -1.69 | Trefniadau Effeithiol ar gyfer bod yn barod am Argyfyngau Iechyd | 1.69 | ar gyfer bod yn barod am bandemig o ffliw |
| Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | -1.07 | Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | 1.07 | Arian ar gyfer grant deietetig |
| Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | -8.30 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 8.30 | Arian i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth | -0.08 | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 0.08 | Arian i ddyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | -0.03 | Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 0.03 | Aildrefnu cyllidebau |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** | | | | **0.0** |

Ffynhonnell: Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ***HSC(4)-27-12 papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 – Papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol***, Hydref 2012

## 6.2. *Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **tabl 16** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar lefel SPA, sy'n dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

***Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL)***

- Yn gostwng £7.9 miliwn neu 0.1% (gostyngiad o 2.6% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £4.2 miliwn, neu 0.1% (gostyngiad o 4.9% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL refeniw***

- Yn cynyddu £10.2 miliwn neu 0.2% (gostyngiad o 2.3% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £14 miliwn, neu 0.2% (gostyngiad o 4.6% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Mae'r cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Gwasanaethau Cymdeithasol, lle ceir cynnydd o £18.3 miliwn, neu 10.1%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 7.4%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd o £18 miliwn yn y cam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd*, sy'n cynnwys £16.5 miliwn ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg a £1.5 filiwn ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf.[23]

Mae'r unig ostyngiad yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn SPA Cyflenwi'r GIG, sy'n gostwng £10.5 miliwn, neu 0.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 2.6%. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad o £13 miliwn yng ngham gweithredu *Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG*. Mae'r rhan fwyaf o'r arian hwn yn ymwneud â chyllid orthopedeg a ddyfarnwyd yn 2012-13, ond nid yw'n digwydd eto yn 2013-14.[24]

***DEL cyfalaf***

- Yn gostwng £18.2 miliwn, neu 6.9% (gostyngiad o 9.2% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.

---

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, ***Papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, ***Papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

- Yn gostwng £18.2 miliwn neu 6.9% (gostyngiad o 11.4% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Mae'r unig gynnydd yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Gwasanaethau Cymdeithasol, lle ceir cynnydd o £11.4 miliwn, neu dros 100%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd o £12 miliwn yn y cam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd* mewn perthynas â Dechrau'n Deg.[25]

Mae'r gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn SPA Cyflenwi'r GIG, sy'n gostwng £28.4 miliwn, neu 11.6%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 13.7%. Mae hyn oherwydd gostyngiad o £28 miliwn yn y cam gweithredu *Cyflenwi'r GIG*. Ni roddir eglurhad penodol am hyn. Fodd bynnag, ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n nodi bod gostyngiad cyfalaf cyffredinol yn 2013-14 oherwydd bod gostyngiad cyffredinol yn y rhaglen gyfalaf a gyhoeddwyd fel rhan o Ymarfer Asesu Ymchwil 2010.[26]

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

- Yn gostwng £107.1 miliwn, neu 53.1% (gostyngiad o 54.3% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £11.7 miliwn, neu 5.8% (gostyngiad o 0.7% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, ***Papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, ***Papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

## Tabl 16: Newidiadau yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cronnus mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 5,505,426 | 5,494,916 | 5,489,435 | -10,510 | -0.2 | -15,991 | -0.3 | -144,532 | -2.6 | -280,503 | -5.1 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 227,920 | 228,904 | 228,179 | 984 | 0.4 | 259 | 0.1 | -4,599 | -2.0 | -10,736 | -4.7 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 157,071 | 158,001 | 158,001 | 930 | 0.6 | 930 | 0.6 | -2,924 | -1.9 | -6,683 | -4.3 |
| Gwasanethau Cymdeithasol | 181,475 | 199,763 | 209,763 | 18,288 | 10.1 | 28,288 | 15.6 | 13,416 | 7.4 | 18,180 | 10.0 |
| CAFCASS Cymru | 9,635 | 10,162 | 10,162 | 527 | 5.5 | 527 | 5.5 | 279 | 2.9 | 37 | 0.4 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **6,081,527** | **6,091,746** | **6,095,540** | **10,219** | **0.2** | **14,013** | **0.2** | **-138,360** | **-2.3** | **-279,704** | **-4.6** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 245,699 | 217,275 | 225,275 | -28,424 | -11.6 | -20,424 | -8.3 | -33,723 | -13.7 | -31,279 | -12.7 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 5,690 | 5,072 | 5,072 | -618 | -10.9 | -618 | -10.9 | -742 | -13.0 | -862 | -15.2 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 5,039 | 4,492 | 4,492 | -547 | -10.9 | -547 | -10.9 | -657 | -13.0 | -763 | -15.2 |
| Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,285 | 16,711 | 8,711 | 11,426 | 216.2 | 3,426 | 64.8 | 11,018 | 208.5 | 3,006 | 56.9 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **261,713** | **243,550** | **243,550** | **-18,163** | **-6.9** | **-18,163** | **-6.9** | **-24,103** | **-9.2** | **-29,899** | **-11.4** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Diffygion a Darpariaethau'r GIG | 201,710 | 94,574 | 213,428 | -107,136 | -53.1 | 11,718 | 5.8 | -109,443 | -54.3 | 1,434 | 0.7 |
| **CYFANSWM AME** | **201,710** | **94,574** | **213,428** | **-107,136** | **-53.1** | **11,718** | **5.8** | **-109,443** | **-54.3** | **1,434** | **0.7** |
| DEL Refeniw | 6,081,527 | 6,091,746 | 6,095,540 | 10,219 | 0.2 | 14,013 | 0.2 | -138,360 | -2.3 | -279,704 | -4.6 |
| DEL Cyfalaf | 261,713 | 243,550 | 243,550 | -18,163 | -6.9 | -18,163 | -6.9 | -24,103 | -9.2 | -29,899 | -11.4 |
| **CYFANSWM DEL** | **6,343,240** | **6,335,296** | **6,339,090** | **-7,944** | **-0.1** | **-4,150** | **-0.1** | **-162,463** | **-2.6** | **-309,603** | **-4.9** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 201,710 | 94,574 | 213,428 | -107,136 | -53.1 | 11,718 | 5.8 | -109,443 | -54.3 | 1,434 | 0.7 |
| **CYFANSWM IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A PHLANT** | **6,544,950** | **6,429,870** | **6,552,518** | **-115,080** | **-1.8** | **7,568** | **0.1** | **-271,906** | **-4.2** | **-308,169** | **-4.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a **datchwyddwyr CMC** Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012

# 7. Llywodraeth Leol a Chymunedau (LGC)

Mae'r adran hon yn nodi manylion y ffigurau cyffredinol[27] ar gyfer y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau i gyfrif am **34.7%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

## *7.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 17** yn darparu manylion am y dyraniadau yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau ar lefel SPA o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

### *Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £20.7 miliwn, neu 0.4%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £50.4 miliwn, neu 1.0%.

Fel y dangosir yn **nabl 18**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- ostyngiad o £11.7 miliwn yn 2013-14 a 2014-15 o ganlyniad i drosglwyddiadau net o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau; a
- dyraniadau ychwanegol o £32.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £62 miliwn yn 2014-15.

### *DEL refeniw*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o brif grwpiau gwariant eraill a dyraniad o'r cronfeydd canolog. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£1.5 filiwn (0.0%) yn 2013-14 a £5.5 miliwn (0.1%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod ac mae **tabl 18** yn cynnwys manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **Trosglwyddiad o £27.5 miliwn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau** yn 2013-14 i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Dyma ganlyniad trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â chamddefnyddio

[27] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

sylweddau o 1 Ebrill 2012.  Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

- **Trosglwyddiad net o £28.9 miliwn i'r grant cymorth refeniw** yn 2013-14 a £32.9 miliwn yn 2014-15.  Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £8 miliwn yn 2013-14 o'r cronfeydd refeniw canolog ar gyfer Menter Benthyca Llywodraeth Leol (£12 miliwn ychwanegol yn 2014-15);
    - £21.8 miliwn yn 2013-14 o'r MEG Addysg a Sgiliau (E&S) mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros y Fenter Brecwast Ysgol am Ddim, Blas am Oes a Chwnsela mewn Ysgolion o dan *y Bil Safonau a Threfn Ysgolion (Cymru)* (ceir y trosglwyddiad hwn yn 2014-15 hefyd);
    - £0.7 miliwn yn 2013-14 o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch asesiadau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (ceir y trosglwyddiad hwn yn 2014-15 hefyd); a
    - £1.6 filiwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA) ar gyfer Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus (ceir y trosglwyddiad hwn yn 2014-15 hefyd).

Ceir nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net.  Nodir bod y trosglwyddiadau hyn yn cael eu gwneud er mwyn:

> ...cyd-fynd yn well â'n blaenoriaethau, ac er mwyn dod â chyllidebau sy'n canolbwyntio ar Lywodraeth Leol, ar wella gwasanaethau cyhoeddus ac ar gefnogi cymunedau at ei gilydd. [28]

O fewn y trosglwyddiadau hyn, ceir y trosglwyddiad o £0.4 miliwn o'r cam gweithredu *Teithio Cynaliadwy* i'r grant cymorth refeniw (y cam gweithredu *Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol)* ar gyfer costau'r Cynllun Bathodyn Glas.

## *DEL cyfalaf*

Bu nifer o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o gronfeydd canolog wrth gefn a rhwng y prif grwpiau gwariant. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL cyfalaf (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£19.2 miliwn (8.2%) yn 2013-14 a £44.9 miliwn (19.3%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod ac mae **tabl 18** yn cynnwys manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

[28] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 45) [fel ar 29 Hydref 2012]

- **£15 miliwn i brosiectau yn ymwneud â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**[29] yn 2013-14 a £50 miliwn yn 2014-15. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £10 miliwn yn 2013-14 ar gyfer deuoli'r A465 rhwng Brynmawr a Thredegar (£30 miliwn ychwanegol yn 2014-15);
    - £5 miliwn yn 2013-14 ar gyfer gwelliannau i dwnel Conwy ar yr A55 (£20 miliwn ychwanegol yn 2014-15);
- **£9.3 miliwn i brosiectau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog** yn 2013-14. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £1.9 filiwn ar gyfer y gwelliannau i'r A470 rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes;
    - £2 filiwn ar gyfer gwelliannau i'r A470 yng Ngelligemlyn;
    - £3 miliwn ar gyfer Casglu Data Traffig Cenedlaethol;
    - £1.7 filiwn ar gyfer gwelliannau i Gyffordd 32 yr M4; a
    - £0.7 miliwn ar gyfer storio halen ar gyfer y ffordd mewn mannau strategol ledled Cymru.
- **Trosglwyddiad o £5.1 miliwn o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau** yn 2013-14 i'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Dyma ganlyniad trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau o 1 Ebrill 2012. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

Nid oes dim trosglwyddiadau cyfalaf mewnol yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae'r AME ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £26.7 miliwn, neu dros 100%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £0.2 miliwn, neu 0.4%. Mae hyn oherwydd yr asesiadau diwygiedig o'r Pensiynau Gwasanaeth Tân ac oherwydd y newidiadau yn y dyddiadau cwblhau ar gyfer nifer o gynlluniau, a chynnydd yn y dibrisiant ar y rhwydwaith ffyrdd.

---

[29] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi*, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

**Tabl 17: Newidiadau yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,296,372 | 4,318,772 | 4,325,747 | 4,352,147 | 29,375 | 0.7 | 33,375 | 0.8 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 52,064 | 52,064 | 52,064 | 52,064 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cymunedau mwy diogel | 44,176 | 44,176 | 16,701 | 16,701 | -27,475 | -62.2 | -27,475 | -62.2 |
| Gwella Gwasanaethau, Cydweithio a Democratiaeth | 40,979 | 40,979 | 40,979 | 40,979 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14,461 | 14,461 | 14,461 | 14,461 | 0 | 0.0 | **0** | 0.0 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,591 | 2,591 | 2,591 | 2,591 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Estyn | 12,364 | 12,364 | 12,364 | 12,364 | 0 | 0.0 | **0** | 0.0 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 174,212 | 173,574 | 174,212 | 173,574 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr | 173,179 | 173,179 | 173,179 | 173,179 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Teithio cynaliadwy | 82,722 | 84,105 | 82,302 | 83,685 | -420 | -0.5 | -420 | -0.5 |
| Gwella diogelwch ar y ffyrdd | 4,717 | 4,713 | 4,717 | 4,713 | 0 | 0.0 | **0** | 0.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **4,897,837** | **4,920,978** | **4,899,317** | **4,926,458** | **1,480** | **0.0** | **5,480** | **0.1** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0.0 | **0** | 0.0 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 10,950 | 10,950 | 10,950 | 10,950 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cymunedau mwy diogel | 7,711 | 7,711 | 2,639 | 2,639 | -5,072 | -65.8 | -5,072 | -65.8 |
| Estyn | 281 | 281 | 281 | 281 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 38,151 | 43,204 | 48,551 | 63,204 | 10,400 | 27.3 | 20,000 | 46.3 |
| Buddsoddi mewn ffyrdd a rheilffyrdd | 93,991 | 91,046 | 107,891 | 121,046 | 13,900 | 14.8 | 30,000 | 33.0 |
| Teithio cynaliadwy | 41,640 | 39,532 | 41,640 | 39,532 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gwella a chynnal a chadw'r seilwaith ffyrdd lleol | 13,667 | 13,667 | 13,667 | 13,667 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gwella diogelwch ar y ffyrdd | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **233,291** | **233,291** | **252,519** | **278,219** | **19,228** | **8.2** | **44,928** | **19.3** |
| **AME** | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,717 | 18,288 | 24,488 | 24,488 | 3,771 | 18.2 | 6,200 | 33.9 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 4,973 | 34,952 | 27,918 | 28,946 | 22,945 | 461.4 | **-6,006** | -17.2 |
| **CYFANSWM AME** | **25,690** | **53,240** | **52,406** | **53,434** | **26,716** | **104.0** | **194** | **0.4** |
| DEL Refeniw | 4,897,837 | 4,920,978 | 4,899,317 | 4,926,458 | 1,480 | 0.0 | 5,480 | 0.1 |
| DEL Cyfalaf | 233,291 | 233,291 | 252,519 | 278,219 | 19,228 | 8.2 | **44,928** | 19.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **5,131,128** | **5,154,269** | **5,151,836** | **5,204,677** | **20,708** | **0.4** | **50,408** | **1.0** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 25,690 | 53,240 | 52,406 | 53,434 | 26,716 | 104.0 | 194 | 0.4 |
| **CYFANSWM LGC** | **5,156,818** | **5,207,509** | **5,204,242** | **5,258,111** | **47,424** | **0.9** | **50,602** | **1.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 18: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| LGC: Camddefnyddio sylweddau | -27.5 | -27.5 | HSSC: Rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar waith | 27.5 | 27.5 | Trosglwyddiadau rheolaidd i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau |
| O gronfeydd canolog | -8.0 | -12.0 | LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | 8.0 | 12.0 | Trosglwyddwyd i'r RSG ar gyfer menter Benthyca Llywodraeth Leol |
| E&S: Lles Plant a Phobl Ifanc | -21.8 | -21.8 | LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | 21.8 | 21.8 | Ar gyfer y fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion, Blas am Oes a Chwnsela mewn Ysgolion mewn perthynas â'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). |
| HSSC: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -0.7 | -0.7 | LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | 0.7 | 0.7 | I gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud ag asesiadau Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid |
| LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | -1.6 | -1.6 | CSA: Gwybodaeth ddaearyddol | 1.6 | 1.6 | Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG LGC** | **2013-14** | | | | | **1.4** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG LGC** | **2014-15** | | | | | **5.4** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -10.0 | -30.0 | LGC: Cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd | 10.0 | 30.0 | Deuoli'r A465 rhwng Brynmawr a Thredegar |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -5.0 | -20.0 | LGC: Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 5.0 | 20.0 | Gwelliannau i Dwnnel Conwy ar yr A55 |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -5.4 | | LGC: Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 5.4 | | Cefnogi datblygu'r seilwaith a chasglu data traffig |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -3.9 | | LGC: Cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd | 3.9 | | Cefnogi datblygu'r seilwaith a chasglu data traffig |
| LGC: Camddefnyddio sylweddau | -5.1 | -5.1 | HSSC: Rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ar waith | 5.1 | 5.1 | Trosglwyddiadau rheolaidd i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG LGC** | **2013-14** | | | | | **19.2** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG LGC** | **2014-15** | | | | | **44.9** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG LGC** | **2013-14** | | | | | **20.6** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG LGC** | **2014-15** | | | | | **50.3** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## *7.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **tabl 19** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus dros gyfnod y gyllideb mewn termau arian parod a thermau real.

***Cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL)***

- Yn cynyddu £56.2 miliwn neu 1.1% (gostyngiad o 1.4% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £109 miliwn, neu 2.1% (gostyngiad o 2.8% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL refeniw***

- Yn cynyddu £73 miliwn neu 1.5% (gostyngiad o 1.0% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £100.2 miliwn, neu 2.1% (gostyngiad o 2.8% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Mae'r cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Cyllid Llywodraeth Leol, lle ceir cynnydd o £86.5 miliwn, neu 2.0%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.4%. Ni cheir eglurhad penodol am hyn, ond mae'r cam gweithredu *Cymorth Ariannol i Lywodraeth Leol*, sy'n cynnwys arian ar gyfer y grant cymorth refeniw a roddir i lywodraeth leol, wedi cynyddu £86.8 miliwn. Yn y Setliad Refeniw a Chyfalaf dros dro i Lywodraeth Leol ar gyfer 2013-14, mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant AC) yn nodi:

> Bydd y cyllid heb ei neilltuo ar gyfer 2013-14 yn dod i £4.4 biliwn. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o ychydig llai na 9% i'r ffigwr ar gyfer 2012-13. Mae'n cynnwys £214 miliwn ar gyfer cynllun cymorth y dreth gyngor, sy'n disodli trefniadau budd-dal y dreth gyngor. Mae hefyd yn cynnwys dros £90 miliwn ar gyfer grantiau penodol a drosglwyddwyd i mewn, gan gynnwys y Grant Adsefydlu Anabledd Dysgu a'r cyllid ar gyfer addysg anghenion addysgol arbennig ôl-16. Ar ôl addasu ar gyfer y naill ffactor a'r llall, mae'r cyllid yn cynyddu 1.5%, o gymharu â'r cynnydd dangosol o 1.3% i'r setliad.[30]

Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd, lle ceir cynnydd o £5.3 miliwn, neu 3.1%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 0.6%. Mae hyn oherwydd cynnydd o'r un swm yn y cam gweithredu *Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd*. Nid oes eglurhad ar gyfer y cynnydd

---

[30]Llywodraeth Cymru, ***Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol 2013-14, Llythyr i'r Awdurdodau Lleol***, Hydref 2012, [fel ar 30 Hydref 2012]

hwn oherwydd ei fod yn cyd-fynd â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd y llynedd.

Mae'r gostyngiad ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA/cam gweithredu Teithio Cynaliadwy, lle ceir gostyngiad o £12.8 miliwn, neu 13.4%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 15.6%. Unwaith eto, ni cheir eglurhad am hyn oherwydd ei fod yn cyd-fynd â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd y llynedd, ar wahân i'r trosglwyddiad o £0.4 miliwn o'r cam gweithredu hwn i'r grant cymorth refeniw mewn perthynas â chostau'r Cynllun Bathodyn Glas.

Mae'r gostyngiad ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA/cam gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd, lle ceir gostyngiad o £1 filiwn, neu 17.5%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 19.5%. Unwaith eto, nid oes eglurhad ar gyfer y cynnydd hwn oherwydd ei fod yn cyd-fynd â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd y llynedd.

### *DEL cyfalaf*

- Yn gostwng £16.8 miliwn neu 6.2% (gostyngiad o 8.5% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £8.9 miliwn, neu 3.3% (gostyngiad o 1.7% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Mae'r unig gynnydd yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA/cam gweithredu Buddsoddi Mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd, lle ceir cynnydd o £11.2 miliwn, neu 11.6%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 8.9%. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r dyraniadau ychwanegol i'r cam gweithredu hwn o'r cronfeydd wrth gefn, fel y dangosir yn **nhabl 18.**

Mae'r gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Gwella a Chynnal a Chadw'r Seilwaith Ffyrdd Lleol, lle ceir gostyngiad o £14.5 miliwn, neu 51.4%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 52.6%. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y cam gweithredu *Gwella a Chynnal a Chadw'r Seilwaith Ffyrdd Lleol,* yn gostwng o £12.8 miliwn yn 2012-13 i sero o 2013-14 ymlaen. Eglurodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r Pwyllgor Menter a Busnes fod y cam gweithredu hwn wedi darparu arian ar gyfer y grant trafnidiaeth leol yn flaenorol, i gefnogi prosiectau ar gyfer ffyrdd lleol, ac nad oedd hyn ar gael bellach ar gyfer prosiectau newydd. Bwriedir y bydd prosiectau o'r fath yn cael eu hariannu drwy'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol. O dan y fenter hon, mae Llywodraeth Cymru yn darparu ffrwd o refeniw y gall awdurdodau

lleol ei defnyddio i dalu costau benthyca arian ar gyfer prosiectau cyfalaf o'r fath ar ffyrdd lleol. [31]

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

- Yn cynyddu £1 filiwn neu 2.0% (gostyngiad o 0.5% mewn termau real) yn 2013-14 o'i gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £2 filiwn, neu 4.0% (gostyngiad o 1.0% mewn termau real) dros gyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

---

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2012 [nid oedd y linc ar gael pan luniwyd y ddogfen hon]

## Tabl 19: Newidiadau yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,239,269 | 4,325,747 | 4,352,147 | 86,478 | 2.0 | 112,878 | 2.7 | -19,028 | -0.4 | -96,833 | -2.3 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 53,963 | 52,064 | 52,064 | -1,899 | -3.5 | -1,899 | -3.5 | -3,169 | -5.9 | -4,408 | -8.2 |
| Cymunedau mwy diogel | 16,551 | 16,701 | 16,701 | 150 | 0.9 | 150 | 0.9 | -257 | -1.6 | -655 | -4.0 |
| Gwella Gwasanaethau, Cydweithio a Democratiaeth | 41,896 | 40,979 | 40,979 | -917 | -2.2 | -917 | -2.2 | -1,916 | -4.6 | -2,892 | -6.9 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 15,190 | 14,461 | 14,461 | -729 | -4.8 | -729 | -4.8 | -1,082 | -7.1 | -1,426 | -9.4 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,722 | 2,591 | 2,591 | -131 | -4.8 | -131 | -4.8 | -194 | -7.1 | -256 | -9.4 |
| Estyn | 12,968 | 12,364 | 12,364 | -604 | -4.7 | -604 | -4.7 | -906 | -7.0 | -1,200 | -9.3 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 168,951 | 174,212 | 173,574 | 5,261 | 3.1 | 4,623 | 2.7 | 1,012 | 0.6 | -3,741 | -2.2 |
| Gwasanaethau rheilffyrdd ac awyr | 173,971 | 173,179 | 173,179 | -792 | -0.5 | -792 | -0.5 | -5,016 | -2.9 | -9,137 | -5.3 |
| Teithio cynaliadwy | 95,091 | 82,302 | 83,685 | -12,789 | -13.4 | -11,406 | -12.0 | -14,796 | -15.6 | -15,438 | -16.2 |
| Gwella diogelwch ar y ffyrdd | 5,716 | 4,717 | 4,713 | -999 | -17.5 | -1,003 | -17.5 | -1,114 | -19.5 | -1,230 | -21.5 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **4,826,288** | **4,899,317** | **4,926,458** | **73,029** | **1.5** | **100,170** | **2.1** | **-46,467** | **-1.0** | **-137,214** | **-2.8** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -488 | -2.4 | -964 | -4.8 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 14,774 | 10,950 | 10,950 | -3,824 | -25.9 | -3,824 | -25.9 | -4,091 | -27.7 | -4,352 | -29.5 |
| Cymunedau mwy diogel | 3,339 | 2,639 | 2,639 | -700 | -21.0 | -700 | -21.0 | -764 | -22.9 | -827 | -24.8 |
| Estyn | 315 | 281 | 281 | -34 | -10.8 | -34 | -10.8 | -41 | -13.0 | -48 | -15.1 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 55,366 | 48,551 | 63,204 | -6,815 | -12.3 | 7,838 | 14.2 | -7,999 | -14.4 | 4,792 | 8.7 |
| Buddsoddi mewn ffyrdd a rheilffyrdd | 96,694 | 107,891 | 121,046 | 11,197 | 11.6 | 24,352 | 25.2 | 8,566 | 8.9 | 18,519 | 19.2 |
| Teithio cynaliadwy | 43,826 | 41,640 | 39,532 | -2,186 | -5.0 | -4,294 | -9.8 | -3,202 | -7.3 | -6,199 | -14.1 |
| Gwella a chynnal a chadw'r seilwaith ffyrdd lleol | 28,137 | 13,667 | 13,667 | -14,470 | -51.4 | -14,470 | -51.4 | -14,803 | -52.6 | -15,129 | -53.8 |
| Gwella diogelwch ar y ffyrdd | 6,900 | 6,900 | 6,900 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -168 | -2.4 | -332 | -4.8 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **269,351** | **252,519** | **278,219** | **-16,832** | **-6.2** | **8,868** | **3.3** | **-22,991** | **-8.5** | **-4,538** | **-1.7** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,717 | 24,488 | 24,488 | 3,771 | 18.2 | 3,771 | 18.2 | 3,174 | 15.3 | 2,591 | 12.5 |
| Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol) | 30,668 | 27,918 | 28,946 | -2,750 | -9.0 | -1,722 | -5.6 | -3,431 | -11.2 | -3,117 | -10.2 |
| **CYFANSWM AME** | **51,385** | **52,406** | **53,434** | **1,021** | **2.0** | **2,049** | **4.0** | **-257** | **-0.5** | **-526** | **-1.0** |
| DEL Refeniw | 4,826,288 | 4,899,317 | 4,926,458 | 73,029 | 1.5 | 100,170 | 2.1 | -46,467 | -1.0 | -137,214 | -2.8 |
| DEL Cyfalaf | 269,351 | 252,519 | 278,219 | -16,832 | -6.2 | 8,868 | 3.3 | -22,991 | -8.5 | -4,538 | -1.7 |
| **CYFANSWM DEL** | **5,095,639** | **5,151,836** | **5,204,677** | **56,197** | **1.1** | **109,038** | **2.1** | **-69,458** | **-1.4** | **-141,753** | **-2.8** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 51,385 | 52,406 | 53,434 | 1,021 | 2.0 | 2,049 | 4.0 | -257 | -0.5 | -526 | -1.0 |
| **CYFANSWM LGC** | **5,147,024** | **5,204,242** | **5,258,111** | **57,218** | **1.1** | **111,087** | **2.2** | **-69,715** | **-1.4** | **-142,278** | **-2.8** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a datchwyddwyr CMC Trysorlys EM (fel ym mis Medi 2012

## 8. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)

Mae'r adran hon yn nodi manylion am y ffigurau cyffredinol[32] ar gyfer y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i gyfrif am **1.8%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

### *8.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 20** yn darparu manylion am y dyraniadau yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar lefel SPA o'u cymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

#### *Cyfanswm DEL*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £10.6 miliwn, neu 4.0%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £9.2 miliwn, neu 3.5%.

Fel y dangosir yn **nhabl 21**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- drosglwyddiadau net o £2.1 filiwn o'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn 2013-14 a £0.8 miliwn yn 2014-15; a
- dyraniadau ychwanegol o £12.7 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £10 miliwn yn 2014-15.

#### *DEL Refeniw*

Bu trosglwyddiadau refeniw a oedd yn ymwneud â'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y gostyngiadau yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£2.1 filiwn (1.2%) yn 2013-14 a £0.8 miliwn (0.4%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 21** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **trosglwyddiad o £0.8 miliwn i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y Deyrnas Unedig** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn ar gyfer y System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (caiff £0.6 miliwn ychwanegol ei drosglwyddo i'r MEG yn 2014-15).

[32] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

- **Mae £2.9 filiwn wedi cael ei throsglwyddo o'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14 ac £1.4 filiwn yn 2014-15. Mae'r trosglwyddiad hwn ar gyfer ad-daliadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.

Ceir nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Mae'r trosglwyddiadau hyn wedi'u nodi i adlewyrchu ailstrwythuro'r gyllideb i'w halinio'n well â chynlluniau gweithredu, a darparu ar gyfer rhaglenni gwyddoniaeth a dyraniadau ychwanegol i'r cyllideb Sectorau. Mae'r holl drosglwyddiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiadau A a C i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes.[33]

### *DEL Cyfalaf*

Bu dyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Canlyniad net y cyfrifon hyn ar gyfer y cynnydd yn y DEL cyfalaf (yn erbyn cynlluniau dangosol) yw **£12.7 miliwn (16.0%) yn 2013-14 a £10 miliwn (12.6%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 21** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **£12.7 miliwn i brosiectau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog** yn 2013-14. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
  - £10 miliwn ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru; a
  - £2.7 filiwn ar gyfer Gwasanaethau Cefn Gwlad Ar-lein
- £10 miliwn i brosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru[34] yn 2014-15. Mae'r dyraniad hwn yn gysylltiedig â Rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru.

Ceir nifer o drosglwyddiadau cyfalaf hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Mae'r trosglwyddiadau hyn wedi'u nodi i adlewyrchu ailstrwythuro'r gyllideb i'w halinio'n well â chynlluniau gweithredu, a darparu ar gyfer rhaglenni gwyddoniaeth a dyraniadau ychwanegol i'r gyllideb Sectorau. Mae'r holl drosglwyddiadau hyn wedi'u nodi yn Atodiadau A a C i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes.[35]

---

[33] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ***E+B(4)-30-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014***, **Atodiad A** ac **Atodiad C**, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]
[34] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi***, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ***E+B(4)-30-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014***, **Atodiad A** ac **Atodiad C**, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

*Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae'r AME ar gyfer 2013-14 wedi gostwng £21.4 miliwn, neu 51.7%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau hefyd wedi gostwng £21.4 miliwn, neu 51.7%. Mae hyn oherwydd amgylchiadau cyfredol a dangosol yn y farchnad a'u heffaith ar y goblygiadau mewn perthynas ag amhariadau ar y portffolio eiddo, mentrau ar y cyd a buddsoddiadau.

**Tabl 20: Newidiadau yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Sectorau a busnes | 43,856 | 43,856 | 55,872 | 55,324 | 12,016 | 27.4 | 11,468 | 26.1 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 5,800 | 5,800 | 14,269 | 14,895 | 8,469 | 146.0 | 9,095 | 156.8 |
| Cyllid rhanbarthol | 2,005 | 2,005 | 0 | 0 | -2,005 | -100.0 | -2,005 | -100.0 |
| Cyllid Cymru | 4,102 | 4,102 | 0 | 0 | -4,102 | -100.0 | -4,102 | -100.0 |
| Digwyddiadau mawr | 3,897 | 3,897 | 4,740 | 4,740 | 843 | 21.6 | 843 | 21.6 |
| Marchnata | 2,815 | 2,815 | 0 | 0 | -2,815 | -100.0 | -2,815 | -100.0 |
| Seilwaith | 23,571 | 23,571 | 20,642 | 22,171 | -2,929 | -12.4 | -1,400 | -5.9 |
| Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol | 4,918 | 4,918 | 10,138 | 10,060 | 5,220 | 106.1 | 5,142 | 104.6 |
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 1,522 | 1,522 | 1,522 | 1,522 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Materion gwledig | 79,316 | 79,316 | 75,116 | 74,916 | -4,200 | -5.3 | -4,400 | -5.5 |
| Twristiaeth | 12,626 | 12,626 | 0 | 0 | -12,626 | -100.0 | -12,626 | -100.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **184,428** | **184,428** | **182,299** | **183,628** | **-2,129** | **-1.2** | **-800** | **-0.4** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | |
| Sectorau a busnes | 43,711 | 43,711 | 46,519 | 46,144 | 2,808 | 6.4 | 2,433 | 5.6 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 300 | 300 | 2,613 | 2,979 | 2,313 | 771.0 | 2,679 | 893.0 |
| Cyllid rhanbarthol | 995 | 995 | 0 | 0 | -995 | -100.0 | -995 | -100.0 |
| Cyllid Cymru | 1,500 | 1,500 | 0 | 0 | -1,500 | -100.0 | -1,500 | -100.0 |
| Seilwaith | 18,456 | 18,456 | 28,456 | 28,456 | 10,000 | 54.2 | 10,000 | 54.2 |
| Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol | 372 | 372 | 59 | 68 | -313 | -84.1 | -304 | -81.7 |
| Materion gwledig | 11,723 | 11,723 | 14,423 | 11,723 | 2,700 | 23.0 | 0 | 0.0 |
| Twrisitiaeth | 2,313 | 2,313 | 0 | 0 | -2,313 | -100.0 | -2,313 | -100.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **79,370** | **79,370** | **92,070** | **89,370** | **12,700** | **16.0** | **10,000** | **12.6** |
| **AME** | | | | | | | | |
| Seilwaith | 41,402 | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 |
| **CYFANSWM AME** | **41,402** | **41,402** | **20,000** | **20,000** | **-21,402** | **-51.7** | **-21,402** | **-51.7** |
| DEL Refeniw | 184,428 | 184,428 | 182,299 | 183,628 | -2,129 | -1.2 | -800 | -0.4 |
| DEL Cyfalaf | 79,370 | 79,370 | 92,070 | 89,370 | 12,700 | 16.0 | 10,000 | 12.6 |
| **CYFANSWM DEL** | **263,798** | **263,798** | **274,369** | **272,998** | **10,571** | **4.0** | **9,200** | **3.5** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 41,402 | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 |
| **CYFANSWM BETS** | **305,200** | **305,200** | **294,369** | **292,998** | **-10,831** | **-3.5** | **-12,202** | **-4.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 21: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| Y DU: DEFRA | -0.8 | -0.6 | BETS: Diwallu anghenion cymunedau gwledig a mesur y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru ynghylch cefn gwlad | 0.8 | 0.6 | Trosglwyddiad o'r DU ar gyfer y System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid |
| BETS: Darparu Seilwaith TGCh | -2.9 | -1.4 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | 2.9 | 1.4 | Ad-dalu prosiectau Buddsoddi i Arbed |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG BETS** | **2013-14** | | | | | **-2.1** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG BETS** | **2014-15** | | | | | **-0.8** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -10.0 | | BETS: Darparu Seilwaith TGCh | 10.0 | | Rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -2.7 | | BETS: Darparu'r rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig | 2.7 | | Gwasanaethau gwledig ar-lein |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | | -10.0 | BETS: Darparu Seilwaith TGCh | | 10.0 | Rhaglen Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG BETS** | **2013-14** | | | | | **12.7** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG BETS** | **2014-15** | | | | | **10.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG BETS** | **2013-14** | | | | | **10.6** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG BETS** | **2014-15** | | | | | **9.2** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## *8.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **Tabl 22** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod ac mewn termau real.

***Cyfanswm DEL***

- Yn gostwng £0.9 miliwn neu 0.3% (gostyngiad o 2.7% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £2.2 filiwn, neu 0.8% (gostyngiad o 5.6% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL Refeniw***

- Yn cynyddu £5.4 miliwn neu 3.1% (cynnydd o 0.6% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £6.8 miliwn, neu 3.8% (gostyngiad o 1.2% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Sectorau a Busnes, lle ceir cynnydd o £5.2 miliwn, neu 10.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 7.5%. Mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw ailstrwythuro'r gyllideb Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'w halinio'n well â chynlluniau gweithredu a throsglwyddiadau i ddarparu cyllid ychwanegol i'r cyllideb Sectorau fel y nodir yn Atodiadau A a C i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes.[36]

Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Gwyddoniaeth ac Arloesi, lle ceir cynnydd o £3.6 miliwn, neu 33.9%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 30.6%. Unwaith eto, mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw ailstrwythuro'r gyllideb Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'w halinio'n well â chynlluniau gweithredu a throsglwyddiadau i ddarparu ar gyfer rhaglenni gwyddoniaeth fel y nodir yn Atodiadau A a C i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes.[37]

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol, lle ceir gostyngiad o £2.3 filiwn, neu 18.8%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o

---

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ***E+B(4)-30-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014***, **Atodiad A** ac **Atodiad C**, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ***E+B(4)-30-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014***, **Atodiad A** ac **Atodiad C**, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

20.7%. Ni roddir eglurhad penodol am hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai gostyngiad mewn tri phrif gam gweithredu sydd i gyfrif am hyn: gostyngiad o £0.6 miliwn yn y cam gweithredu *Rhaglenni Corfforaethol*; gostyngiad o £1.3 filiwn yn y cam gweithredu *Cyllid Cymru*; a gostyngiad o £0.4 miliwn yn y cam gweithredu *Rhaglenni Strategaeth*.

***DEL Cyfalaf***

- Yn gostwng £6.3 miliwn neu 6.4% (gostyngiad o 8.7% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £9 miliwn, neu 9.1% (gostyngiad o 13.5% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd ariannol a chanrannol mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn y SPA Seilwaith, lle ceir cynnydd o £17.4 miliwn, neu dros 100%. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r dyraniadau ychwanegol i'r cam gweithredu *Gweithredu Seilwaith TGCh* o gronfeydd cyfalaf fel y dangosir yn **nhabl 21** ynghyd â chynnydd o tua £7 miliwn a oedd wedi'i gynllunio eisoes pan gyhoeddwyd y cynlluniau dangosol y llynedd.

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Rhaglenni Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol, lle ceir gostyngiad o £1.9 filiwn, neu 96.9%. Ni roddir eglurhad penodol am hyn. Fodd bynnag, roedd cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd y llynedd yn dangos gostyngiad a gynlluniwyd ymlaen llaw o £1.5 filiwn. Yn ogystal, bu gostyngiad pellach o £0.3 miliwn yn y cam gweithredu *Rhaglenni Corfforaethol* o ganlyniad i ailstrwythuro'r gyllideb Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i'w halinio'n well â chynlluniau gweithredu a throsglwyddiadau i ddarparu cyllid ychwanegol i'r gyllideb Sectorau fel y nodir yn Atodiad C i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Menter a Busnes.[38]

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn y SPA Sectorau a Busnes, lle ceir gostyngiad o £22.3 miliwn, neu 32.4%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 34.1%. Ni roddir eglurhad am hyn oherwydd ei fod yn cyd-fynd â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd y llynedd i leihau'r SPA hwn gan £25 miliwn (yn bennaf mewn perthynas â cham gweithredu *y Gronfa Fuddsoddi Sengl Etifeddol*), wedi'i wrthbwyso

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)***

- Yn gostwng £21.4 miliwn neu 51.7% (gostyngiad o 52.9% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.

[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ***E+B(4)-30-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014***, **Atodiad A** ac **Atodiad C**, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Hydref 2011]

- Yn gostwng £21.4 miliwn, neu 51.7% (gostyngiad o 54.0% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

## Tabl 22: Newidiadau yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Sectorau a busnes | 50,722 | 55,872 | 55,324 | 5,150 | 10.2 | 4,602 | 9.1 | 3,787 | 7.5 | 1,936 | 3.8 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 10,656 | 14,269 | 14,895 | 3,613 | 33.9 | 4,239 | 39.8 | 3,265 | 30.6 | 3,521 | 33.0 |
| Cyllid rhanbarthol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cyllid Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Digwyddiadau mawr | 4,831 | 4,740 | 4,740 | -91 | -1.9 | -91 | -1.9 | -207 | -4.3 | -319 | -6.6 |
| Marchnata | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Seilwaith | 22,415 | 20,642 | 22,171 | -1,773 | -7.9 | -244 | -1.1 | -2,276 | -10.2 | -1,312 | -5.9 |
| Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol | 12,478 | 10,138 | 10,060 | -2,340 | -18.8 | -2,418 | -19.4 | -2,587 | -20.7 | -2,903 | -23.3 |
| Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 1,522 | 1,522 | 1,522 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -37 | -2.4 | -73 | -4.8 |
| Materion gwledig | 74,246 | 75,116 | 74,916 | 870 | 1.2 | 670 | 0.9 | -962 | -1.3 | -2,940 | -4.0 |
| Twristiaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **176,870** | **182,299** | **183,628** | **5,429** | **3.1** | **6,758** | **3.8** | **983** | **0.6** | **-2,090** | **-1.2** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Sectorau a busnes | 68,832 | 46,519 | 46,144 | -22,313 | -32.4 | -22,688 | -33.0 | -23,448 | -34.1 | -24,911 | -36.2 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 1,107 | 2,613 | 2,979 | 1,506 | 136.0 | 1,872 | 169.1 | 1,442 | 130.3 | 1,728 | 156.1 |
| Cyllid rhanbarthol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cyllid Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Seilwaith | 11,031 | 28,456 | 28,456 | 17,425 | 158.0 | 17,425 | 158.0 | 16,731 | 151.7 | 16,054 | 145.5 |
| Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol | 1,917 | 59 | 68 | -1,858 | -96.9 | -1,849 | -96.5 | -1,859 | -97.0 | -1,852 | -96.6 |
| Materion gwledig | 15,469 | 14,423 | 11,723 | -1,046 | -6.8 | -3,746 | -24.2 | -1,398 | -9.0 | -4,311 | -27.9 |
| Twristiaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **98,356** | **92,070** | **89,370** | **-6,286** | **-6.4** | **-8,986** | **-9.1** | **-8,532** | **-8.7** | **-13,292** | **-13.5** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Seilwaith | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 | -21,890 | -52.9 | -22,366 | -54.0 |
| **CYFANSWM AME** | **41,402** | **20,000** | **20,000** | **-21,402** | **-51.7** | **-21,402** | **-51.7** | **-21,890** | **-52.9** | **-22,366** | **-54.0** |
| DEL Refeniw | 176,870 | 182,299 | 183,628 | 5,429 | 3.1 | 6,758 | 3.8 | 983 | 0.6 | -2,090 | -1.2 |
| DEL Cyfalaf | 98,356 | 92,070 | 89,370 | -6,286 | -6.4 | -8,986 | -9.1 | -8,532 | -8.7 | -13,292 | -13.5 |
| **CYFANSWM DEL** | **275,226** | **274,369** | **272,998** | **-857** | **-0.3** | **-2,228** | **-0.8** | **-7,549** | **-2.7** | **-15,383** | **-5.6** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 41,402 | 20,000 | 20,000 | -21,402 | -51.7 | -21,402 | -51.7 | -21,890 | -52.9 | -22,366 | -54.0 |
| **CYFANSWM BETS** | **316,628** | **294,369** | **292,998** | **-22,259** | **-7.0** | **-23,630** | **-7.5** | **-29,439** | **-9.3** | **-37,748** | **-11.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a **dadchwyddwyr CMC** Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Medi 2012)

# 9. Addysg a Sgiliau (E&S)

Mae'r adran hon yn nodi manylion am y ffigurau cyffredinol[39] ar gyfer y MEG Addysg a Sgiliau, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae'r MEG Addysg a Sgiliau i gyfrif am **12.5%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

## *9.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 23** yn dangos y manylion am y dyraniadau yn y MEG Addysg a Sgiliau ar lefel SPA o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

### *Cyfanswm DEL*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £12.3 miliwn, neu 0.7%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi gostwng £10.8 miliwn, neu 0.6%.

Fel y dangosir yn **nhabl 24**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- effaith net trosglwyddiadau o £21 miliwn o'r MEG Addysg a Sgiliau yn 2013-14 a £20.8 miliwn yn 2014-15; a
- dyraniadau ychwanegol o £33.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £10 miliwn yn 2014-15.

### *DEL Refeniw*

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i'r MEG Addysg a Sgiliau o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o brif grwpiau gwariant eraill. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y gostyngiadau yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£21 miliwn (1.2%) yn 2013-14 a £20.8 miliwn (1.2%) yn 2014-15.** Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 24** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **Trosglwyddiad o £2.1 filiwn i'r MEG Addysg a Sgiliau o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14. Diben y trosglwyddiad hwn yw talu costau Prifysgol Caerdydd i ddarparu hyfforddiant meddygol a deintyddol. Ceir trosglwyddiad tebyg o £2.3 filiwn yn 2014-15.

[39] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

- **Mae £21.8 miliwn wedi cael ei drosglwyddo o'r MEG Addysg a Sgiliau i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros y Fenter Brecwast am Ddim Mewn Ysgolion, Blas am Oes a Chwnsela mewn Ysgolion o dan y *Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)*. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Mae £1.3 filiwn wedi cael ei throsglwyddo o'r MEG Addysg a Sgiliau i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â chostau gweinyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a ddiddymwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

Ceir nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Ceir rhagor o fanylion am y trosglwyddiadau hyn ym mhapur y Gweinidogion i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc[40] a'r Pwyllgor Menter a Busnes.[41]

### *DEL Cyfalaf*

Bu dyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r MEG Addysg a Sgiliau. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL cyfalaf (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£33.3 miliwn (23.2%) yn 2013-14 a £10 miliwn (7.0%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae tabl 24 yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **£15 miliwn i brosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**[42] yn 2013-14 a £10 miliwn yn 2014-15. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £15 miliwn yn 2013-14 i alluogi cyflymu cynlluniau o dan y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain; a
    - £10 miliwn yn 2014-15 i gyflymu'r gwaith ar gampws Addysg Bellach ôl-16 newydd i Goleg Caerdydd a'r Fro yng nghanol dinas Caerdydd.
- **£18.3 miliwn i brosiectau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog** yn 2013-14. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £7 miliwn i ehangu ac ailwampio ysgolion uwchradd, ac adeiladu ysgolion newydd, yn ardal Dinefwr yn Sir Gaerfyrddin;

---

[40] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, Addysg a Sgiliau *CYP(4)-28-12 Papur 1: Cyllideb Ddrafft 2013-14*, hefyd Atodiad 1 i'r papur, 10 Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[41] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, *E+B(4)-31-12 Papur 1: Cyllideb Ddrafft 2013-14*, hefyd Atodiad 1 i'r papur, 17 Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[42] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi*, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

- £2.1 filiwn ar gyfer prosiect Porth y Cymoedd i adeiladu ysgol newydd yn Nhondu, Pen-y-bont ar Ogwr;
- £3 miliwn ar gyfer prosiect Ardal Ddysgu Merthyr;
- £4.7 miliwn ar gyfer prosiect Ysgol y Bont ar Ynys Môn i adeiladu ysgol 'werdd' newydd; ac
- £1.5 filiwn ar gyfer ysgol Gymraeg newydd yn Wrecsam.

O edrych ar y tablau dyrannu gwariant,[43] mae'n ymddangos bod trosglwyddiad cyfalaf o £0.1 miliwn hefyd yn y MEG, o gam gweithredu yr Iaith Gymraeg i gam gweithredu yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG. Nid yw'r trosglwyddiad hwn wedi'i nodi yn nogfennau'r gyllideb nac yn y papurau gan y Gweinidogion.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae'r AME ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £15.6 miliwn, neu 9.7%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £29.8 miliwn, neu 19.5%. Mae hyn yn gwbl gysylltiedig â'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer benthyciadau gan fyfyrwyr, sydd wedi'u harwain gan alw ac sy'n cael eu heffeithio gan gyfraddau llog.

---

[43] Llywodraeth Cymru, ***Dyraniadau o Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

**Tabl 23: Newidiadau yn y MEG Addysg a Sgiliau ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 1,186,719 | 1,191,319 | 1,184,252 | 1,189,052 | -2,467 | -0.2 | -2,267 | -0.2 |
| Gweithlu â sgiliau | 77,039 | 77,039 | 81,403 | 81,403 | 4,364 | 5.7 | 4,364 | 5.7 |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 401,605 | 404,640 | 379,019 | 382,054 | -22,586 | -5.6 | -22,586 | -5.6 |
| Y Gymraeg | 26,455 | 26,455 | 25,076 | 25,076 | -1,379 | -5.2 | -1,379 | -5.2 |
| Darparu Cymorth | 3,006 | 3,006 | 4,049 | 4,049 | 1,043 | 34.7 | 1,043 | 34.7 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **1,694,824** | **1,702,459** | **1,673,799** | **1,681,634** | **-21,025** | **-1.2** | **-20,825** | **-1.2** |
| **DEL CYFALAF** | 143,734 | 143,734 | 177,134 | 153,834 | 33,400 | 23.2 | 10,100 | 7.0 |
| Addysg a Sgiliau Hyfforddi | 100 | 100 | 0 | 0 | -100 | -100.0 | -100 | -100.0 |
| Y Gymraeg | **143,834** | **143,834** | **177,134** | **153,834** | **33,300** | **23.2** | **10,000** | **7.0** |
| **CYFANSWM CYFALAF** | | | | | | | | |
| **AME** | | | | | | | | |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 161,285 | 153,310 | 176,869 | 183,149 | 15,584 | 9.7 | 29,839 | 19.5 |
| **CYFANSWM AME** | **161,285** | **153,310** | **176,869** | **183,149** | **15,584** | **9.7** | **29,839** | **19.5** |
| DEL Refeniw | 1,694,824 | 1,702,459 | 1,673,799 | 1,681,634 | -21,025 | -1.2 | -20,825 | -1.2 |
| DEL Cyfalaf | 143,834 | 143,834 | 177,134 | 153,834 | 33,300 | 23.2 | 10,000 | 7.0 |
| **CYFANSWM DEL** | **1,838,658** | **1,846,293** | **1,850,933** | **1,835,468** | **12,275** | **0.7** | **-10,825** | **-0.6** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 161,285 | 153,310 | 176,869 | 183,149 | 15,584 | 9.7 | 29,839 | 19.5 |
| **CYFANSWM E&S** | **1,999,943** | **1,999,603** | **2,027,802** | **2,018,617** | **27,859** | **1.4** | **19,014** | **1.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 24: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Addysg a Sgiliau

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| HSSC: Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG | -2.1 | -2.3 | E&S: Addysg uwch | 2.1 | 2.3 | Taliadau i Brifysgol Caerdydd ar gyfer hyfforddiant meddygol a deintyddol. |
| E&S: Lles Plant a Phobl Ifanc | -21.8 | -21.8 | LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | 21.8 | 21.8 | Ar gyfer y fenter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion, Blas am Oes a Chwnsela mewn Ysgolion mewn perthynas â'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). |
| E&S: Y Gymraeg | -1.3 | -1.3 | CSA: Costau staffio | 1.3 | 1.3 | Trosglwyddiadau rheolaidd i dalu costau gweinyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gafodd ei ddiddymu yn gynharach yn y flwyddyn. |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG E&S** | **2013-14** | | | | | **-21.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG E&S** | **2014-15** | | | | | **-20.8** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -15.0 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 15.0 | | Cyflymu'r broses o gyflwyno amryw o gynlluniau o dan y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -7.0 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 7.0 | | Estyn, adnewyddu ac adeiladu o'r newydd ysgolion uwchradd yn rhanbarth Dinefwr yn Sir Gaerfyrddin |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -2.1 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 2.1 | | Prosiect Porth y Cymoedd i adeiladu ysgol newydd yn ardal Ton-du ym Mhen-y-bont ar Ogwr |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -3.0 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 3.0 | | Prosiect Ardal Ddysgu Merthyr Tudful |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -4.7 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 4.7 | | Prosiect Ysgol y Bont yn Ynys Môn |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -1.5 | | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | 1.5 | | Ysgol gyfrwng Cymraeg newydd yn Wrecsam |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | | -10.0 | E&S: Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG | | 10.0 | Campws Addysg Bellach ôl-16 newydd ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG E&S** | **2013-14** | | | | | **33.3** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG E&S** | **2014-15** | | | | | **10.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG E&S** | **2013-14** | | | | | **12.3** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG E&S** | **2014-15** | | | | | **-10.8** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## 9.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

Mae **Tabl 25** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Addysg a Sgiliau ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod ac mewn termau real.

***Cyfanswm DEL***

- Yn gostwng £3.9 miliwn neu 0.2% (gostyngiad o 2.6% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £19.4 miliwn, neu 1.0% (gostyngiad o 5.8% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL Refeniw***

- Yn gostwng £2.7 filiwn neu 0.2% (gostyngiad o 2.6% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £5.1 miliwn, neu 0.3% (gostyngiad o 4.5% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Safonau Addysg a Hyfforddiant, lle ceir cynnydd o £17.3 miliwn, neu 1.5%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 1.0%. Gellir gweld bod hyn yn gysylltiedig â nifer o newidiadau o fewn y SPA,[44] a'r prif newidiadau yw:

- cam gweithredu *Llythrennedd a Rhifedd*: yn cynyddu £2 filiwn, fel y nodir mewn cynlluniau dangosol;
- cam gweithredu *y Cwricwlwm*: yn cynyddu £2.4 filiwn, fel y nodir mewn cynlluniau dangosol ond gyda gostyngiad net o £0.9 miliwn;
- cam gweithredu *Cymwysterau*: yn gostwng £3.8 miliwn oherwydd arbedion rheolaidd a nodwyd yn ystod adolygiad o gyllidebau;
- cam gweithredu *Addysg Ôl-16*: yn cynyddu £7.1 miliwn, o ganlyniad i drosglwyddiadau yn y MEG;
- cam gweithredu *Strwythurau Addysg*: yn gostwng £1 filiwn oherwydd arbedion rheolaidd a nodwyd yn ystod adolygiad o gyllidebau;
- cam gweithredu *Safonau Addysg*: yn cynyddu £6.6 miliwn oherwydd cynnydd ers cynlluniau blaenorol a nodwyd drwy arbedion effeithlonrwydd; a
- cam gweithredu *Grant Amddifadedd Disgyblion*: yn cynyddu £4.3 miliwn, sy'n gynnydd o £1.4 filiwn ers y cynlluniau dangosol.

---

[44] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, ***E+B(4)-31-12 Papur 1: Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn 2013-14 yn y SPA Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb, lle ceir gostyngiad o £11.7 miliwn, neu 3.0%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 5.4%. Gellir gweld bod hyn yn gysylltiedig â nifer o newidiadau o fewn y SPA, [45] a'r prif newidiadau yw:

- cam gweithredu *Cyfleoedd Mynediad*: yn gostwng £5 miliwn i sero. Ni roddir eglurhad penodol am y newid hwn. Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc[46] yn cyfeirio at adolygiad o gyllidebau a arweiniodd at nifer o newidiadau gyda'r bwriad o ganolbwyntio adnoddau ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth neu hyfforddiant. Gan mai'r unig Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)[47] yn y cam gweithredu hwn yw *Cefnogi Pobl Ifanc*, gallai hyn gyfeirio at drosglwyddiad o'r fath.
- cam gweithredu *Lles Plant a Phobl Ifanc*: yn gostwng £15.3 miliwn. Y rheswm dros hyn yw trosglwyddiad rheolaidd o £21.8 miliwn i'r grant cynnal refeniw (fel y dangosir yn **nhabl 24**), sy'n gwrthbwyso cynnydd o £4.2 miliwn i fynd i'r afael â phwysau mewn perthynas â myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu mewn Addysg Bellach, sydd wedi'i gyllido o arbedion effeithlonrwydd ar draws y MEG. Cafodd cynnydd pellach o £2.3 filiwn ei gynnwys mewn cynlluniau dangosol;
- cam gweithredu *Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16*: yn cynyddu £8 miliwn, yn unol â chynlluniau dangosol blaenorol; a
- cham gweithredu *Ennyn Diddordeb Disgyblion* : yn cynyddu £0.6 miliwn, yn unol â chynlluniau dangosol blaenorol.

Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn 2013-14 yn y SPA Gweithlu â Sgiliau, lle ceir gostyngiad o £8.2 miliwn, neu 9.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 11.4%. Gellir gweld bod hyn yn gysylltiedig â nifer o newidiadau o fewn y SPA, [48] a'r prif newidiadau yw:

- cam gweithredu *Cyflogaeth a Sgiliau*: yn gostwng £3.3 miliwn, yn rhannol oherwydd trosglwyddiadau ac ailstrwythuro'r gyllideb i'w halinio'n well â'r rhaglen lywodraethu. Hefyd, yn 2012-13 cafodd £7.2 miliwn ei ddyrannu yn y

[45] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, ***E+B(4)-31-12 Papur 1: Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ***CYP(4)-27-12 Papur 1 - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014*** ac **Atodiad 1** 10 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

[47] **Llinell wariant yn y gyllideb (BEL)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Llinellau gwariant yn y gyllideb yw'r lefel isaf o fanylder, o dan y camau gweithredu. Ni chaiff llinellau gwariant yn y gyllideb eu cyhoeddi yn nogfennau'r gyllideb fel mater o drefn, ond cânt eu darparu'n aml mewn papurau gan y Gweinidogion i Bwyllgorau'r Cynulliad.

[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau, ***E+B(4)-31-12 Papur 1: Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 17 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

cam gweithredu hwn ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc a Sgiliau Twf Cymru. Ni fydd hyn y digwydd eto yn 2013-14 nac mewn blynyddoedd i ddod;

- cam gweithredu *Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc*: yn cynyddu £1.1 filiwn. Dyma ganlyniad net trosglwyddiadau yn y MEG; a

  cham gweithredu *Dewis Addysg a Gyrfa*: yn gostwng £6 miliwn, yn unol â chynlluniau dangosol blaenorol i sicrhau arbedion drwy ad-drefnu dulliau gweithredu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.

***DEL Cyfalaf***

- Yn gostwng £1.2 filiwn neu 0.7% (gostyngiad o 3.1% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £24.5 miliwn, neu 13.7% (gostyngiad o 17.9% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Yr unig newid yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yw gostyngiad yn y SPA Sgiliau Addysg a Hyfforddi, lle ceir gostyngiad o £1.2 filiwn, neu 0.7%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 3.1%. Ceir y gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn hwn er gwaethaf y dyraniadau ychwanegol o £33.3 miliwn ar ben y cynlluniau dangosol (fel y dangosir yn **nhabl 24**).

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)***

- Yn gostwng £1.4 filiwn neu 0.8% (gostyngiad o 3.2% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £4.8 miliwn, neu 2.7% (gostyngiad o 2.2% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

### Tabl 25: Newidiadau yn y MEG Addysg a Sgiliau o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Safonau Addysg a Hyfforddiant | 1,166,961 | 1,184,252 | 1,189,052 | 17,291 | 1.5 | 22,091 | 1.9 | -11,593 | -1.0 | -35,204 | -3.0 |
| Gweithlu â sgiliau | 89,649 | 81,403 | 81,403 | -8,246 | -9.2 | -8,246 | -9.2 | -10,231 | -11.4 | -12,168 | -13.6 |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 390,752 | 379,019 | 382,054 | -11,733 | -3.0 | -8,698 | -2.2 | -20,977 | -5.4 | -27,108 | -6.9 |
| Y Gymraeg | 24,976 | 25,076 | 25,076 | 100 | 0.4 | 100 | 0.4 | -512 | -2.0 | -1,108 | -4.4 |
| Darparu Cymorth | 4,191 | 4,049 | 4,049 | -142 | -3.4 | -142 | -3.4 | -241 | -5.7 | -337 | -8.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **1,676,529** | **1,673,799** | **1,681,634** | **-2,730** | **-0.2** | **5,105** | **0.3** | **-43,554** | **-2.6** | **-75,926** | **-4.5** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Addysg a Sgiliau Hyfforddi | 178,293 | 177,134 | 153,834 | -1,159 | -0.7 | -24,459 | -13.7 | -5,479 | -3.1 | -31,872 | -17.9 |
| Y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **178,293** | **177,134** | **153,834** | **-1,159** | **-0.7** | **-24,459** | **-13.7** | **-5,479** | **-3.1** | **-31,872** | **-17.9** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb | 178,309 | 176,869 | 183,149 | -1,440 | -0.8 | 4,840 | 2.7 | -5,754 | -3.2 | -3,985 | -2.2 |
| **CYFANSWM AME** | **178,309** | **176,869** | **183,149** | **-1,440** | **-0.8** | **4,840** | **2.7** | **-5,754** | **-3.2** | **-3,985** | **-2.2** |
| DEL Refeniw | 1,676,529 | 1,673,799 | 1,681,634 | -2,730 | -0.2 | 5,105 | 0.3 | -43,554 | -2.6 | -75,926 | -4.5 |
| DEL Cyfalaf | 178,293 | 177,134 | 153,834 | -1,159 | -0.7 | -24,459 | -13.7 | -5,479 | -3.1 | -31,872 | -17.9 |
| **CYFANSWM DEL** | **1,854,822** | **1,850,933** | **1,835,468** | **-3,889** | **-0.2** | **-19,354** | **-1.0** | **-49,034** | **-2.6** | **-107,797** | **-5.8** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 178,309 | 176,869 | 183,149 | -1,440 | -0.8 | 4,840 | 2.7 | -5,754 | -3.2 | -3,985 | -2.2 |
| **CYFANSWM E&S** | **2,033,131** | **2,027,802** | **2,018,617** | **-5,329** | **-0.3** | **-14,514** | **-0.7** | **-54,788** | **-2.7** | **-111,782** | **-5.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a dadchwyddwyr CMC Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Medi 2012)

# 10. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Mae'r adran hon yn nodi manylion am y ffigurau cyffredinol[49] ar gyfer MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i gyfrif am **2.2%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

## *10.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 23** yn dangos y manylion am y dyraniadau ym MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar lefel SPA o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

### *Cyfanswm DEL*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £6.8 miliwn, neu 2.1%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £4.7 miliwn, neu 1.4%.

Fel y dangosir yn **nhabl 27**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- drosglwyddiad o £1.5 filiwn o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn 2014-15; a
- dyraniadau net o £6.8 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £6.2 miliwn yn 2014-15.

### *DEL Refeniw*

Bu trosglwyddiadau yn y dyraniadau refeniw i MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol. Mae'r rhain i gyfrif am y gostyngiadau yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£1.3 filiwn (0.5%) yn 2013-14 a £3.3 miliwn (1.2%) yn 2014-15.** Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 27** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **Trosglwyddiad o £1.3 filiwn o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy** i gronfeydd canolog yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â gostyngiadau cost ac ailbroffilio'r Rhaglen Caffael Rheoli Gwastraff. Ceir trosglwyddiad tebyg o £1.8 filiwn yn 2014-15.

[49] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

- Trosglwyddiad o £1.5 filiwn o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn 2014-15 i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae'r trosglwyddiad hwn yn ad-daliad i'r gronfa Buddsoddi i Arbed mewn perthynas â'r Corff Adnoddau Naturiol newydd ac fe'i cymerwyd o'r cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu*.

O edrych ar y tablau dyrannu gwariant,[50] mae'n ymddangos y bu nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd yn y MEG, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft yn nodi:

> Cynhaliwyd adolygiad o gyllidebau yn ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn llwyr â'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.
>
> O ganlyniad i adolygu'r blaenoriaethau ar sail dyraniadau presennol y gyllideb, rydym wedi creu dwy raglen newydd yn ogystal â chyllideb unigol ar gyfer y Corff Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru, sy'n dod â'r Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru at ei gilydd. Bydd y gyllideb gyfun ar gyfer y Corff Unigol yn fwy na £78m yn 2013- 14.
>
> Ad-drefnwyd sawl agwedd ar y gyllideb fel bod rhaglenni a llinellau cyfredol y gyllideb yn cyd-fynd â'u Camau Gweithredu perthnasol. Nid yw'r un o gyllidebau eraill y portffolio wedi newid ac maent yn dal i gefnogi a chyflawni ein hymrwymiadau o dan y Rhaglen Lywodraethu.[51]

### *DEL Cyfalaf*

Gwnaed nifer o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol i MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, o ganlyniad i ddyraniadau o gronfeydd canolog a throsglwyddo arian yn ôl i gronfeydd wrth gefn. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£8.1 miliwn (14.9%) yn 2013-14 ac £8 miliwn (14.8%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 27** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **£9 miliwn i brosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**[52] yn 2013-14 ac £11 miliwn yn 2014-15. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
  - £5 miliwn yn 2013-14 i gynyddu buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru ac ysgogi cyllid o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni newydd. Bydd y cyllid newydd hwn yn gweithredu drwy'r cynlluniau Nyth ac Arbed sydd eisoes yn bodoli. Mae £5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2014-15; a

[50] Llywodraeth Cymru, ***Dyraniadau o Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[51] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 70) [fel ar 29 Hydref 2012]
[52] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi***, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

- £4 miliwn yn 2013-14 ar gyfer y rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a fydd yn talu am gynlluniau gan awdurdodau lleol a'r Corff Adnoddau Naturiol i leihau perygl llifogydd ar gyfer nifer o gymunedau yng Nghymru. Mae £6 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2014-15; a

- **Trosglwyddiad o £0.9 miliwn o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy** i gronfeydd canolog yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â gostyngiadau cost ac ailbroffilio'r Rhaglen Caffael Rheoli Gwastraff. Ceir trosglwyddiad tebyg o £3 miliwn yn 2014-15.

O edrych ar y tablau dyrannu gwariant,[53] mae'n ymddangos y bu nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd yn y MEG, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Dengys hyn fod £0.2 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu* i'r cam gweithredu *Gweithredu'r Strategaeth Goetiroedd newydd drwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru* yn 2013-14 a 2014-15 i ddod â'r ail gam gweithredu i sero. Mae hyn yn gysylltiedig â sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol newydd i Gymru.

[53] Llywodraeth Cymru, ***Dyraniadau o Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

**Tabl 26: Newidiadau yng nghyllideb MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 121,118 | 125,418 | 120,118 | 123,885 | -1,000 | -0.8 | -1,533 | -1.2 |
| Yr Amgylchedd | 77,648 | 77,648 | 97,216 | 95,704 | 19,568 | 25.2 | 18,056 | 23.3 |
| Cynllunio | 7,090 | 7,090 | 7,090 | 7,090 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 38,895 | 38,041 | 38,895 | 38,041 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Sail Dystiolaeth | 304 | 304 | 1,136 | 1,136 | 832 | 273.7 | 832 | 273.7 |
| Coedwigaeth | 20,700 | 20,700 | 0 | 0 | -20,700 | -100.0 | -20,700 | -100.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **265,755** | **269,201** | **264,455** | **265,856** | **-1,300** | **-0.5** | **-3,345** | **-1.2** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 50,555 | 50,555 | 58,628 | 58,584 | 8,073 | 16.0 | 8,029 | 15.9 |
| Yr Amgylchedd | 3,850 | 3,850 | 3,645 | 3,645 | -205 | -5.3 | -205 | -5.3 |
| Sail Dystiolaeth | 38 | 38 | 38 | 38 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Coedwigaeth | -205 | -205 | 0 | 0 | 205 | .. | 205 | .. |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **54,238** | **54,238** | **62,311** | **62,267** | **8,073** | **14.9** | **8,029** | **14.8** |
| DEL Refeniw | 265,755 | 269,201 | 264,455 | 265,856 | -1,300 | -0.5 | -3,345 | -1.2 |
| DEL Cyfalaf | 54,238 | 54,238 | 62,311 | 62,267 | 8,073 | 14.9 | 8,029 | 14.8 |
| **CYFANSWM DEL** | **319,993** | **323,439** | **326,766** | **328,123** | **6,773** | **2.1** | **4,684** | **1.4** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM ESD** | **319,993** | **323,439** | **326,766** | **328,123** | **6,773** | **2.1** | **4,684** | **1.4** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 27: Trosglwyddiadau i/o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| ESD: Rheoli a gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff | -1.3 | -1.8 | Cronfeydd canolog | 1.3 | 1.8 | Newid o ran lleihau costau a chreu proffil newydd i'r Rhaglen Gaffael Rheoli Gwastraff |
| ESD: Noddi a rheoli cyrff cyflewni | | -1.5 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | | 1.5 | Ad-dalu prosiectau Buddsoddi i Arbed |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG ESD** | **2013-14** | | | | | **-1.3** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG ESD** | **2014-15** | | | | | **-3.3** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -5.0 | -5.0 | ESD: Datblygu a gweithredu polisi, gohebiaeth, deddfwriaeth a rheoliadau ar newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd | 5.0 | 5.0 | Cynyddu pa mor effeithiol yw tai Cymru o ran defnyddio ynni a helpu i gael cyllid ychwanegol o Rwymedigaeth y Cwmnïau Ynni. Cyllido drwy'r cynlluniau Nyth ac Arbed presennol. |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -4.0 | -6.0 | ESD: Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ar berygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthfosiaeth | 4.0 | 6.0 | Y rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i dalu am gynlluniau o dan arweiniad awdurdodau lleol a'r Corff Adnoddau Naturiol i leihau'r perygl o lifogydd ar gyfer nifer o gymunedau yng Nghymru. |
| ESD: Rheoli a gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff | -0.9 | -3.0 | Cronfeydd canolog | 0.9 | 3.0 | Newid o ran lleihau costau a chreu proffil newydd i'r Rhaglen Gaffael Rheoli Gwastraff |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG ESD** | **2013-14** | | | | | **8.1** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG ESD** | **2014-15** | | | | | **8.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG ESD** | **2013-14** | | | | | **6.8** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG ESD** | **2014-15** | | | | | **4.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## *10.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn*

Mae **Tabl 28** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig o fewn MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod ac mewn termau real.

***Cyfanswm DEL***

- Yn gostwng £13.8 miliwn neu 4.0% (gostyngiad o 6.4% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £12.4 miliwn, neu 3.6% (gostyngiad o 8.3% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL Refeniw***

- Yn gostwng £0.7 miliwn neu 0.3% (gostyngiad o 2.7% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £0.7 miliwn, neu 0.3% (gostyngiad o 4.6% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn SPA yr Amgylchedd, lle ceir cynnydd o £16.3 miliwn, neu 20.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 17.3%. Dyma effaith net trosglwyddiadau yn y MEG. Y prif drosglwyddiad yw'r £18.7 miliwn a drosglwyddwyd o'r cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu* o'r SPA Coedwigaeth, sy'n gysylltiedig â'r cyllid ar gyfer y Corff Adnoddau Naturiol i Gymru.[54]

Ceir y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn SPA y Drysorfa Dystiolaeth, lle ceir cynnydd o £0.8 miliwn, neu dros 100%. Mae'n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â throsglwyddiad o SPA yr Amgylchedd (cam gweithredu *Datblygu trysorfa dystiolaeth addas)* o ganlyniad i ailstrwythuro'r gyllideb.

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Coedwigaeth, lle ceir gostyngiad o £21.2 miliwn i sero. Fel y nodwyd uchod, y rheswm dros y gostyngiad hwn yw'r trosglwyddiad o'r cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu* i SPA yr Amgylchedd sy'n gysylltiedig â'r cyllid ar gyfer y Corff Adnoddau Naturiol i Gymru.[55]

---

[54] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Papur gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ***Papur 2: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 18 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]
[55] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Papur gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ***Papur 2: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 18 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

### *DEL Cyfalaf*

- Yn gostwng £13.1 miliwn neu 17.3% (gostyngiad o 19.3% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £13.1 miliwn, neu 17.4% (gostyngiad o 21.4% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn y SPA Newid Hinsawdd, lle ceir gostyngiad o £11.3 miliwn, neu 16.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 18.2%. Dangosodd ffigurau dangosol blaenorol ar gyfer y SPA hwn ostyngiad arfaethedig o £19.4 miliwn yn 2013-14, sydd wedi'i wrthbwyso gan ddyraniad net ychwanegol o £8.1 miliwn mewn arian cyfalaf, fel y nodir yn **nhabl 27**.

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn SPA yr Amgylchedd, lle ceir gostyngiad o £2 filiwn, neu 34.9%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 36.5%. Dangosodd ffigurau dangosol blaenorol ar gyfer y SPA hwn ostyngiad o £1.8 filiwn. Yn ogystal â hyn, mae £0.2 miliwn wedi cael ei drosglwyddo o'r cam gweithredu *Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu* i'r SPA Coedwigaeth (cam gweithredu *Gweithredu'r Strategaeth Goetiroedd newydd drwy Gomisiwn Coedwigaeth Cymru*) i ddod â'r ail gam gweithredu i sero. Mae hyn yn gysylltiedig â sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol newydd i Gymru. Mae'r trosglwyddiad hwn i'r SPA Coetiroedd hefyd yn cynrychioli'r unig gynnydd yn y DEL cyfalaf yn 2013-14. Fodd bynnag, ni all, mewn gwirionedd, gael ei ystyried yn gynnydd oherwydd ei fod yn dod â chyfanswm y dyraniad ar gyfer y cam gweithredu hwn i sero, fel yr esboniwyd uchod.

## Tabl 28: Newidiadau ym MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 115,855 | 120,118 | 123,885 | 4,263 | 3.7 | 8,030 | 6.9 | 1,333 | 1.2 | 2,061 | 1.8 |
| Yr Amgylchedd | 80,887 | 97,216 | 95,704 | 16,329 | 20.2 | 14,817 | 18.3 | 13,958 | 17.3 | 10,205 | 12.6 |
| Cynllunio | 7,403 | 7,090 | 7,090 | -313 | -4.2 | -313 | -4.2 | -486 | -6.6 | -655 | -8.8 |
| Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 39,454 | 38,895 | 38,041 | -559 | -1.4 | -1,413 | -3.6 | -1,508 | -3.8 | -3,246 | -8.2 |
| Sail Dystiolaeth | 354 | 1,136 | 1,136 | 782 | 220.9 | 782 | 220.9 | 754 | 213.1 | 727 | 205.4 |
| Coedwigaeth | 21,200 | 0 | 0 | -21,200 | -100.0 | -21,200 | -100.0 | -21,200 | -100.0 | -21,200 | -100.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **265,153** | **264,455** | **265,856** | **-698** | **-0.3** | **703** | **0.3** | **-7,148** | **-2.7** | **-12,107** | **-4.6** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd | 69,936 | 58,628 | 58,584 | -11,308 | -16.2 | -11,352 | -16.2 | -12,738 | -18.2 | -14,175 | -20.3 |
| Yr Amgylchedd | 5,600 | 3,645 | 3,645 | -1,955 | -34.9 | -1,955 | -34.9 | -2,044 | -36.5 | -2,131 | -38.0 |
| Sail Dystiolaeth | 38 | 38 | 38 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -1 | -2.4 | -2 | -4.8 |
| Coedwigaeth | -205 | 0 | 0 | 205 | .. | 205 | .. | 205 | .. | 205 | .. |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **75,369** | **62,311** | **62,267** | **-13,058** | **-17.3** | **-13,102** | **-17.4** | **-14,578** | **-19.3** | **-16,102** | **-21.4** |
| DEL Refeniw | 265,153 | 264,455 | 265,856 | -698 | -0.3 | 703 | 0.3 | -7,148 | -2.7 | -12,107 | -4.6 |
| DEL Cyfalaf | 75,369 | 62,311 | 62,267 | -13,058 | -17.3 | -13,102 | -17.4 | -14,578 | -19.3 | -16,102 | -21.4 |
| **CYFANSWM DEL** | **340,522** | **326,766** | **328,123** | **-13,756** | **-4.0** | **-12,399** | **-3.6** | **-21,726** | **-6.4** | **-28,210** | **-8.3** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM ESD** | **340,522** | **326,766** | **328,123** | **-13,756** | **-4.0** | **-12,399** | **-3.6** | **-21,726** | **-6.4** | **-28,210** | **-8.3** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a dadchwyddwyr CMC Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Medi 2012)

# 11. Tai, Adfywio a Threftadaeth

Mae'r adran hon yn nodi manylion am y ffigurau'r cyffredinol[56] ar gyfer y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth i gyfrif am **3.7%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

## *11.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 29** yn cynnwys y manylion am y dyraniadau yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth ar lefel SPA o'u cymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

### *Cyfanswm DEL*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £14.3 miliwn, neu 2.6%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £7.8 miliwn, neu 1.4%.

Fel y dangosir yn **nhabl 30**, achoswyd y newidiadau gan:

- drosglwyddiadau net o £1.8 filiwn i'r SPA Tai, Adfywio a Threftadaeth yn 2013-14 a 2014-15, a
- dyraniadau ychwanegol o £12.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 a £6.5 miliwn yn 2014-15.

### *DEL Refeniw*

Bu nifer o drosglwyddiadau yn y dyraniadau refeniw i'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth, o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£1.8 filiwn (0.7%) yn 2013-14 a 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 30** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **Trosglwyddiad o £2 filiwn i'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â dull newydd i gynyddu buddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

[56] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

- **Trosglwyddiad o £0.2 miliwn o'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth** yn 2013-14 i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

Ceir nifer o drosglwyddiadau refeniw hefyd rhwng y camau gweithredu yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Y rheswm pennaf dros y trosglwyddiadau hyn yw ailstrwythuro'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth. Mae cysoniad o'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn nogfen naratif y gyllideb ddrafft.[57] Yn ogystal, mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn nodi:

> Yn ogystal, gwnaed nifer o newidiadau rhwng llinellau cyllideb. Yn benodol, mae'r cyllidebau refeniw ar gyfer adfywio ac ar gyfer polisi tai wedi eu cwtogi £1.8m a £0.2m yn eu trefn, a'r cyfanswm o £2m wedi ei drosglwyddo i linell gyllideb newydd sy'n darparu cymorth refeniw ar gyfer costau ariannu buddsoddiad uwch mewn tai cymdeithasol. Mae'r swm hwn, ynghyd â'r dyraniad ychwanegol i'r MEG o £2m, a drosglwyddwyd o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, wedi creu cyfanswm llinell gyllideb o **£4m** i'w ddefnyddio ar gyfer costau ariannu mecanwaith newydd i gynyddu'r buddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Bydd hyn yn darparu buddsoddiad rhag blaen o tua £100m ac yn cyflenwi mwy na 1,250 o unedau eiddo.[58]

### *DEL Cyfalaf*

Gwnaed nifer o ddyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, o ganlyniad i ddyraniadau o gronfeydd canolog. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£12.5 miliwn (4.8%) yn 2013-14 a £6 miliwn (2.3%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae tabl 30 yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **£6 miliwn i brosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**[59] yn 2013-14 a £6 miliwn yn 2014-15. Mae hyn y gysylltiedig â Phartneriaeth Tai Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu'r flaenoriaeth Buddsoddi mewn Tai.
- **£6.5 miliwn i brosiectau o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog** yn 2013-14. Dyrennir yr arian hwn fel a ganlyn:
    - £5 miliwn ar gyfer Cynllun Ailddatblygu Tai y Rhyl; ac
    - £1.5 filiwn ar gyfer adfer hen neuadd y dref Merthyr Tudful.

[57] Llywodraeth Cymru, *Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14*, Hydref 2012 (Atodiad B) [fel ar 29 Hydref 2012]
[58] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, *CELG(4)-23-12 - P1, Papur gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar Gyllideb Ddrafft 2013-14*, 18 Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[59] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi*, 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

Dylid nodi bod **tabl 30**, dogfen naratif y gyllideb ddrafft[60] a phapur y Gweinidog i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol[61] yn dangos bod £6 miliwn o gyllid Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru wedi mynd i gam gweithredu *Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai,* a bod £6.5 miliwn o gyllid yr Ymrwymiad Lleihau Carbon wedi mynd i'r cam gweithredu *Adfywio*. Fodd bynnag, mae tablau dyraniadau'r gyllideb ddrafft[62] yn dangos newid o £5 miliwn yn unig ym mhob blwyddyn yn y cam gweithredu *Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai*, a chynnydd o £7.5 miliwn yn 2013-14 a chynnydd o £1 filiwn yn 2014-15 yn y cam gweithredu *Adfywio*. Felly, rhaid bod £1 filiwn mewn arian cyfalaf wedi cael ei throsglwyddo ym mhob blwyddyn o gam gweithredu *Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai* i gam gweithredu *Adfywio*. Heblaw am hynny, mae'n ymddangos nad oedd unrhyw newidiadau pellach yn y dyraniadau cyfalaf yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae'r AME ar gyfer 2013-14 wedi gostwng £16 miliwn, neu 30.6%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau hefyd wedi gostwng £16 miliwn, neu 30.6%. Caiff hyn ei nodi i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf o ran derbyniadau Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai sy'n daladwy i Drysorlys Ei Mawrhydi.[63]

[60] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 78) [fel ar 29 Hydref 2012]
[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ***CELG(4)-23-12 - P1, Papur gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar Gyllideb Ddrafft 2013-14***, 18 Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[62] Llywodraeth Cymru, ***Dyraniadau o Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]
[63] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 78) [fel ar 29 Hydref 2012]

## Tabl 29: Newidiadau yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | canran | £000 | canran |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Polisi Tai | 151,091 | 151,091 | 150,736 | 150,741 | -355 | -0.2 | -350 | -0.2 |
| Cartrefi a Lleoedd | 15,098 | 15,098 | 17,278 | 17,278 | 2,180 | 14.4 | 2,180 | 14.4 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cadarn drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 35,643 | 35,643 | 35,643 | 35,643 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 37,445 | 37,445 | 37,445 | 37,445 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 24,853 | 24,899 | 24,853 | 24,899 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Y Cyfryngau a chyhoeddi | 3,926 | 3,926 | 3,926 | 3,926 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cadw, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 11,541 | 11,541 | 11,541 | 11,541 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **279,597** | **279,643** | **281,422** | **281,473** | **1,825** | **0.7** | **1,830** | **0.7** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | |
| Polisi Tai | 1,641 | 1,641 | 1,641 | 1,641 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cartrefi a Lleoedd | 251,029 | 251,029 | 263,529 | 257,029 | 12,500 | 5.0 | 6,000 | 2.4 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cadarn drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 450 | 450 | 450 | 450 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 4,043 | 4,043 | 4,043 | 4,043 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 345 | 345 | 345 | 345 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Y Cyfryngau a chyhoeddi | 25 | 25 | 25 | 25 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Cadw, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 5,031 | 5,031 | 5,031 | 5,031 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **262,564** | **262,564** | **275,064** | **268,564** | **12,500** | **4.8** | **6,000** | **2.3** |
| **AME** | | | | | | | | |
| Pensiynau Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd | 2,740 | 2,740 | 2,740 | 2,740 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Tai | -55,000 | -55,000 | -71,000 | -71,000 | -16,000 | -29.1 | -16,000 | -29.1 |
| **CYFANSWM AME** | **-52,260** | **-52,260** | **-68,260** | **-68,260** | **-16,000** | **-30.6** | **-16,000** | **-30.6** |
| DEL Refeniw | 279,597 | 279,643 | 281,422 | 281,473 | 1,825 | 0.7 | 1,830 | 0.7 |
| DEL Cyfalaf | 262,564 | 262,564 | 275,064 | 268,564 | 12,500 | 4.8 | 6,000 | 2.3 |
| **CYFANSWM DEL** | **542,161** | **542,207** | **556,486** | **550,037** | **14,325** | **2.6** | **7,830** | **1.4** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -52,260 | -52,260 | -68,260 | -68,260 | -16,000 | -30.6 | -16,000 | -30.6 |
| **CYFANSWM HRH** | **489,901** | **489,947** | **488,226** | **481,777** | **-1,675** | **-0.3** | **-8,170** | **-1.7** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 30: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| CSA: Arian Cyfatebol | -2.0 | -2.0 | HRH: Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai | 2.0 | 2.0 | Dull newydd i gynyddu'r buddsoddiad mewn tai cymdeithasol |
| HRH: Datblygu a gweithredu polisi | -0.2 | -0.2 | CSA: Tribiwnlysoedd | 0.2 | 0.2 | Tribiwnlys Eiddo Preswyl |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG HRH** | **2013-14** | | | | | **1.8** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG HRH** | **2014-15** | | | | | **1.8** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| Dyraniad cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r WIIP | -6.0 | -6.0 | HRH: Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai | 6.0 | 6.0 | Partneriaeth Tai Cymru i gefnogi'r flaenoriaeth o fuddsoddi mewn tai yn y WIIP. |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -5.0 | | HRH: Adfywio | 5.0 | | Cynllun i Ailddatblygu Tai yng ngorllewin y Rhyl |
| Arian cyfalaf a gedwir yn ganolog | -1.5 | | HRH: Adfywio | 1.5 | | Adfer Hen Neuadd y Dref Merthyr Tudful |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG HRH** | **2013-14** | | | | | **12.5** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG HRH** | **2014-15** | | | | | **6.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG HRH** | **2013-14** | | | | | **14.3** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG HRH** | **2014-15** | | | | | **7.8** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## 11.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

Mae **Tabl 31** yn cynnwys gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod ac mewn termau real.

***Cyfanswm DEL***

- Yn gostwng £36.2 miliwn neu 6.1% (gostyngiad o 8.4% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £42.6 miliwn, neu 7.2% (gostyngiad o 11.7% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL Refeniw***

- Yn cynyddu £3.1 miliwn neu 1.1% (gostyngiad o 1.4% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £3.1 miliwn, neu 1.1% (gostyngiad o 3.7% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Cartrefi a Lleoedd, lle ceir cynnydd o £2.2 filiwn, neu 14.9%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 12.1%. Dyma ganlyniad net £4 miliwn ychwanegol i'r cam gweithredu *Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai*, sy'n cynnwys trosglwyddiad o £2 filiwn o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (fel yr amlinellir yn **nhabl 30**), trosglwyddiad o £0.2 miliwn o'r SPA Polisi Tai, a throsglwyddiad o £1.8 filiwn o fewn y SPA o'r cam gweithredu *Adfywio*. Mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn datgan, yn ei bapur i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, bod hyn yn:

> ... linell gyllideb newydd sy'n darparu cymorth refeniw ar gyfer costau ariannu buddsoddiad uwch mewn tai cymdeithasol.[64]

Ceir y gostyngiad ariannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn y SPA Cadw, Diogelu, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol, lle ceir gostyngiad o £0.1 miliwn, neu 1.0%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 3.4%. Mae hyn yn unol â chynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes.

Ceir y gostyngiad canrannol mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 yn SPA y Cyfryngau a Chyhoeddi, lle ceir gostyngiad o £54,000 neu 1.4%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 3.8%. Mae hyn yn unol â chynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes.

---

[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Papur gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, ***CELG(4)-32-12 - Papur 1: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14***, 18 Hydref 2012 [fel ar 30 Hydref 2012]

*DEL Cyfalaf*

- Yn gostwng £39.3 miliwn neu 12.5% (gostyngiad o 14.6% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £45.8 miliwn, neu 14.6% (gostyngiad o 18.7% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Mae'r unig gynnydd yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn digwydd yn y SPA Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, lle ceir cynnydd o £70,000, neu 1.8%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 0.7%. Mae hyn yn unol â chynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes.

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Cartrefi a Lleoedd, lle ceir gostyngiad o £39 miliwn, neu 12.9%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 15.0%. Dangosodd ffigurau dangosol blaenorol ar gyfer y SPA hwn ostyngiad arfaethedig o £51.5 miliwn yn 2013-14. Mae hyn wedi'i wrthbwyso gan ddyraniadau cyfalaf ychwanegol o £12.5 miliwn i'r SPA hwn o gronfeydd canolog, fel y nodir yn **nhabl 30**.

*Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

- Yn gostwng £2.8 filiwn neu 4.2% yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £2.8 filiwn, neu 4.2% yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

## Tabl 31: Newidiadau yn y MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Polisi Tai | 150,493 | 150,736 | 150,741 | 243 | 0.2 | 248 | 0.2 | -3,433 | -2.3 | -7,016 | -4.7 |
| Cartrefi a Lleoedd | 15,038 | 17,278 | 17,278 | 2,240 | 14.9 | 2,240 | 14.9 | 1,819 | 12.1 | 1,407 | 9.4 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cadarn drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 34,802 | 35,643 | 35,643 | 841 | 2.4 | 841 | 2.4 | -28 | -0.1 | -876 | -2.5 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 37,436 | 37,445 | 37,445 | 9 | 0.0 | 9 | 0.0 | -904 | -2.4 | -1,795 | -4.8 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 24,923 | 24,853 | 24,899 | -70 | -0.3 | -24 | -0.1 | -676 | -2.7 | -1,224 | -4.9 |
| Y Cyfryngau a chyhoeddi | 3,980 | 3,926 | 3,926 | -54 | -1.4 | -54 | -1.4 | -150 | -3.8 | -243 | -6.1 |
| Cadw, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 11,658 | 11,541 | 11,541 | -117 | -1.0 | -117 | -1.0 | -398 | -3.4 | -673 | -5.8 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **278,330** | **281,422** | **281,473** | **3,092** | **1.1** | **3,143** | **1.1** | **-3,772** | **-1.4** | **-10,420** | **-3.7** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Polisi Tai | 1,641 | 1,641 | 1,641 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -40 | -2.4 | -79 | -4.8 |
| Cartrefi a Lleoedd | 302,566 | 263,529 | 257,029 | -39,037 | -12.9 | -45,537 | -15.1 | -45,465 | -15.0 | -57,922 | -19.1 |
| Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cadarn drwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill | 455 | 450 | 450 | -5 | -1.1 | -5 | -1.1 | -16 | -3.5 | -27 | -5.9 |
| Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd | 3,973 | 4,043 | 4,043 | 70 | 1.8 | 70 | 1.8 | -29 | -0.7 | -125 | -3.1 |
| Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 345 | 345 | 345 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -8 | -2.4 | -17 | -4.8 |
| Y Cyfryngau a chyhoeddi | 25 | 25 | 25 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | -1 | -2.4 | -1 | -4.8 |
| Cadw, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol | 5,313 | 5,031 | 5,031 | -282 | -5.3 | -282 | -5.3 | -405 | -7.6 | -524 | -9.9 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **314,318** | **275,064** | **268,564** | **-39,254** | **-12.5** | **-45,754** | **-14.6** | **-45,963** | **-14.6** | **-58,695** | **-18.7** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Pensiynau Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd | 2,490 | 2,740 | 2,740 | 250 | 10.0 | 250 | 10.0 | 183 | 7.4 | 118 | 4.7 |
| Tai | -68,000 | -71,000 | -71,000 | -3,000 | -4.4 | -3,000 | -4.4 | -1,268 | -1.9 | 421 | 0.6 |
| **CYFANSWM AME** | **-65,510** | **-68,260** | **-68,260** | **-2,750** | **-4.2** | **-2,750** | **-4.2** | **-1,085** | **-1.7** | **539** | **0.8** |
| DEL Refeniw | 278,330 | 281,422 | 281,473 | 3,092 | 1.1 | 3,143 | 1.1 | -3,772 | -1.4 | -10,420 | -3.7 |
| DEL Cyfalaf | 314,318 | 275,064 | 268,564 | -39,254 | -12.5 | -45,754 | -14.6 | -45,963 | -14.6 | -58,695 | -18.7 |
| **CYFANSWM DEL** | **592,648** | **556,486** | **550,037** | **-36,162** | **-6.1** | **-42,611** | **-7.2** | **-49,735** | **-8.4** | **-69,115** | **-11.7** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -65,510 | -68,260 | -68,260 | -2,750 | -4.2 | -2,750 | -4.2 | .. | .. | .. | .. |
| **CYFANSWM HRH** | **527,138** | **488,226** | **481,777** | **-38,912** | **-7.4** | **-45,361** | **-8.6** | **-50,820** | **-9.6** | **-68,576** | **-13.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a **dadchwyddwyr CMC** Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Medi 2012)
... yn nodi nad yw ar gael

## 12. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Mae'r adran hon nodi yn manylion am y ffigurau cyffredinol[65] ar gyfer y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn darparu manylion am y dyraniadau a'r trosglwyddiadau ychwanegol a wnaed ers cyhoeddi cynlluniau dangosol y llynedd, ac yn crynhoi'r prif newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghamau gweithredu/meysydd rhaglenni gwariant y MEG.

Mae'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gyfrif am **2.3%** o gyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Cymru yn 2013-14.

### *12.1. Newidiadau o gymharu â chynlluniau dangosol*

Mae **tabl 32** yn cynnwys y manylion am y dyraniadau yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar lefel SPA o'u cymharu â chynlluniau dangosol blaenorol (fel yng Nghyllideb Derfynol 2012-13) a sut y mae'r cynlluniau hyn wedi newid yng nghyllideb ddrafft 2013-14.

***Cyfanswm DEL***

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, mae cyfanswm y DEL ar gyfer 2013-14 wedi cynyddu £16.4 miliwn, neu 4.9%. Yn 2014-15, mae'r dyraniadau wedi cynyddu £18.9 miliwn, neu 5.7%.

Fel y dangosir yn **nhabl 33**, achoswyd y newidiadau hyn gan:

- drosglwyddiadau net o £14.4 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2013-14 a £10.9 miliwn yn 2014-15; a
- dyraniadau ychwanegol o £2 filiwn o gronfeydd wrth gefn yn 2013-14 ac £8 miliwn yn 2014-15.

***DEL Refeniw***

Bu nifer o ddyraniadau refeniw ychwanegol i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol, yn sgîl trosglwyddiadau o brif grwpiau gwariant eraill a dyraniad o gronfeydd canolog. Mae'r newidiadau hyn i gyfrif am y cynnydd yn y DEL refeniw (yn erbyn cynlluniau dangosol) o **£16.4 miliwn (5.3%) yn 2013-14 ac £18.9 miliwn (6.2%) yn 2014-15**. Ceir crynodeb o'r trosglwyddiadau hyn isod, ac mae **tabl 33** yn cynnwys y manylion am y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i wneud y trosglwyddiadau hyn.

- **Trosglwyddiad o £1.3 filiwn i'r MEG Gwasanaethau a Gweinyddu Canolog o'r MEG Addysg a Sgiliau** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â chostau gweinyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a ddiddymwyd ym mis Mawrth 2012. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

[65] Nodwch na fydd cyfanswm y ffigurau yn yr adran hon bob tro yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu er hwylustod.

- **Trosglwyddiad o £2 filiwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** yn 2013-14. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £0.2 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth** yn 2013-14. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £1.6 filiwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau** yn 2013-14. Mae hyn yn gysylltiedig â chytundeb traws-lywodraeth ar fapio digidol. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £13.1 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14, a £9.5 miliwn yn 2014-15, o ganlyniad i drosglwyddiadau o feysydd rhaglenni gwariant eraill mewn perthynas ag ad-daliadau ar gyfer prosiectau Buddsoddi i Arbed. Mae'r rhain fel a ganlyn:
    - £10.2 miliwn yn 2013-14 a £6.6 miliwn yn 2014-15 o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant;
    - £2.9 filiwn yn 2013-14 ac £1.4 filiwn yn 2014-15 o'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; ac
    - £1.5 filiwn yn 2014-15 o MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy.
- **Dyraniad o £2 filiwn o gronfeydd canolog** yn 2013-14 i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o'r gronfa Buddsoddi i Arbed.  Ceir dyraniad tebyg o £8 miliwn yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £1.8 filiwn o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14 i Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU. Mae hyn yn gysylltiedig â chytundeb traws-lywodraeth ar fapio digidol. Ceir trosglwyddiad tebyg o £1.7 filiwn yn 2014-15.
- **Trosglwyddiad o £2 filiwn o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** yn 2013-14 i'r MEG Tai, Adfywio a Threftadaeth. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gysylltiedig â system newydd i gynyddu buddsoddiad mewn tai cymdeithasol. Mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd eto yn 2014-15.

O edrych ar dablau dyraniadau'r gyllideb ddrafft[66], gellir gweld bod nifer o drosglwyddiadau refeniw bach rhwng y camau gweithredu yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn 2013-14, ond nid ydynt yn cael dim effaith net. Ni ddarperir manylion am y trosglwyddiadau hyn yn nogfennau'r gyllideb.

---

[66] Llywodraeth Cymru, ***Dyraniadau o Gyllideb Ddrafft 2013-14***, Hydref 2012 [fel ar 29 Hydref 2012]

### *DEL Cyfalaf*

Ni fu newid yn y dyraniadau cyfalaf ar gyfer y MEG Gwasnaethau a Gweinyddu Canolog yn 2013-14 nac yn 2014-15, o'u cymharu â chynlluniau dangosol blaenorol. Ceir trosglwyddiad mewnol yn y MEG o tua £3 miliwn yn 2013-14 a 2014-15. Mae'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo o gam gweithredu *Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed* i gam gweithredu *Buddsoddi i Arbed*, ac mae'n debygol y bwriedir i ad-daliadau cyfalaf i'r Gronfa gael eu defnyddio i ail-lenwi'r elfen gyfalaf o'r Gronfa.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

O gymharu â chynlluniau dangosol blaenorol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, mae'r AME wedi cynyddu £3 miliwn, neu dros 100%, ym mhob blwyddyn. Nodir mai'r rheswm dros hyn yw taliadau pensiwn tybiedig.[67]

---

[67] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen Naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14***, Hydref 2012 (tudalen 88) [fel ar 29 Hydref 2012]

**Tabl 32: Newidiadau yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ers y cynlluniau dangosol yng Nghyllideb Derfynol 2012-13**

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 | Cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2013-14 a chyllideb ddrafft 2013-14 | | Newid rhwng cyllideb derfynol ddangosol 2014-15 a chyllideb ddrafft 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | |
| Costau rhedeg a ddirprwywyd | 194,099 | 194,099 | 195,372 | 195,372 | 1,273 | 0.7 | 1,273 | 0.7 |
| Costau Rhedeg Canolog | 88,083 | 88,083 | 88,616 | 88,635 | 533 | 0.6 | 552 | 0.6 |
| Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth | 11,035 | 11,035 | 12,508 | 12,608 | 1,473 | 13.3 | 1,573 | 14.3 |
| Rhaglenni Canolog | 13,682 | 13,682 | 26,800 | 29,177 | 13,118 | 95.9 | 15,495 | 113.3 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **306,899** | **306,899** | **323,296** | **325,792** | **16,397** | **5.3** | **18,893** | **6.2** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | 9,935 | 9,935 | 9,935 | 9,935 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| Rhaglenni Canolog | 15,378 | 15,378 | 15,378 | 15,378 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **25,313** | **25,313** | **25,313** | **25,313** | **0** | **0.0** | **0** | **0.0** |
| **AME** | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | -1,366 | -848 | 1,634 | 2,152 | 3,000 | 219.6 | 3,000 | 353.8 |
| **CYFANSWM AME** | **-1,366** | **-848** | **1,634** | **2,152** | **3,000** | **219.6** | **3,000** | **353.8** |
| DEL Refeniw | 306,899 | 306,899 | 323,296 | 325,792 | 16,397 | 5.3 | 18,893 | 6.2 |
| DEL Cyfalaf | 25,313 | 25,313 | 25,313 | 25,313 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM DEL** | **332,212** | **332,212** | **348,609** | **351,105** | **16,397** | **4.9** | **18,893** | **5.7** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -1,366 | -848 | 1,634 | 2,152 | 3,000 | 219.6 | 3,000 | 353.8 |
| **CYFANSWM CSA** | **330,846** | **331,364** | **350,243** | **353,257** | **19,397** | **5.9** | **21,893** | **6.6** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

## Tabl 33: Trosglwyddiadau i'r/o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| Rhwng | 2013-14 | 2014-15 | a | 2013-14 | 2014-15 | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU DEL REFENIW** | | | | | | |
| HSSC: Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | -2.0 | -2.0 | CSA: Tribiwnlysoedd | 2.0 | 2.0 | Ar gyfer Tribiwnlysoedd Arolygu Iechyd Meddwl |
| HSSC: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG sydd wedi'u Targedu | -10.2 | -6.6 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | 10.2 | 6.6 | Ad-dalu prosiectau Buddsoddi i Arbed gan y GIG |
| LGC: Cymorth ariannol i lywodraeth leol | -1.6 | -1.6 | CSA: Gwybodaeth ddaearyddol | 1.6 | 1.6 | Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus |
| CSA: Gwybodaeth ddaearyddol | -1.8 | -1.7 | Trosglwyddiad i Adran BIS y DU | 1.8 | 1.7 | Cytundeb trawslywodraethol ar fapio digidol |
| BETS: Darparu Seilwaith TGCh | -2.9 | -1.4 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | 2.9 | 1.4 | Ad-dalu prosiectau Buddsoddi i Arbed |
| E&S: Y Gymraeg | -1.3 | -1.3 | CSA: Costau staffio | 1.3 | 1.3 | Trosglwyddiadau rheolaidd i dalu costau gweinyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg a gafodd ei ddiddymu yn gynhyarach yn y flwyddyn. |
| ESD: Noddi a rheoli cyrff cyflewni | | -1.5 | CSA: Ad-dalu Buddsoddiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed | | 1.5 | Ad-dalu prosiectau Buddsoddi i Arbed |
| HRH: Datblygu a gweithredu polisi | -0.2 | -0.2 | CSA: Tribiwnlysoedd | 0.2 | 0.2 | Tribiwnlys Eiddo Preswyl |
| Cronfeydd canolog | -2.0 | -8.0 | CSA: Buddsoddi i Arbed | 2.0 | 8.0 | Trosglwyddiad o'r cronfeydd canolog i ariannu'r gronfa Buddsoddi i Arbed |
| CSA: Arian Cyfatebol | -2.0 | -2.0 | HRH: Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai | 2.0 | 2.0 | Dull newydd i gynyddu'r buddsoddiad mewn tai cymdeithasol |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG CSA** | **2013-14** | | | | | **16.4** |
| **Trosglwyddiadau DEL refeniw net y MEG CSA** | **2014-15** | | | | | **18.9** |
| **TROSGLWYDDIADAU DEL CYFALAF** | | | | | | |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG CSA** | **2013-14** | | | | | **0.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL cyfalaf net y MEG CSA** | **2014-15** | | | | | **0.0** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG CSA** | **2013-14** | | | | | **16.4** |
| **Trosglwyddiadau DEL net y MEG CSA** | **2014-15** | | | | | **18.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14

### 12.2. Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

Mae **Tabl 34** yn darparu gwybodaeth am y dyraniadau arfaethedig yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar lefel SPA, ac yn dangos y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn 2012-13 a'r newidiadau cronnus yn ystod cyfnod y gyllideb mewn termau arian parod ac mewn termau real.

***Cyfanswm DEL***

- Yn gostwng £14.3 miliwn neu 3.9% (gostyngiad o 6.3% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £11.8 miliwn, neu 3.2% (gostyngiad o 7.9% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

***DEL Refeniw***

- Yn gostwng £11.1 miliwn neu 3.3% (gostyngiad o 5.7% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £8.6 miliwn, neu 2.6% (gostyngiad o 7.3% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Ceir y cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Rhaglenni Canolog, lle ceir cynnydd o £12.4 miliwn, neu 86.8%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 82.1%. Dangosodd ffigurau dangosol blaenorol ar gyfer y SPA hwn ostyngiad arfaethedig o £0.7 miliwn yn 2013-14. Mae hyn wedi'i wrthbwyso gan y dyraniadau ychwanegol o £13.1 miliwn i'r SPA hwn o ganlyniad i ad-daliadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, fel y nodir yn **nhabl 33**.

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Gwasnaethau Gwybodaeth a Chymorth, lle ceir gostyngiad o £10.5 miliwn, neu 45.7%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 47.0%. Dangosodd ffigurau dangosol blaenorol ar gyfer y SPA hwn ostyngiad arfaethedig o £12 miliwn yn 2013-14. Mae hyn wedi'i wrthbwyso gan effaith net y trosglwyddiadau i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, fel y nodir yn **nhabl 33** a throsglwyddiadau mewnol yn y MEG.

***DEL Cyfalaf***

- Yn gostwng £3.2 miliwn neu 11.1% (gostyngiad o 13.2% mewn termau real) yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn gostwng £3.2 miliwn, neu 11.1% (gostyngiad o 15.4% mewn termau real) yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

Nid oes unrhyw gynnydd yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 yn y MEG Gwasnaethau a Gweinyddu Canolog.

Ceir y gostyngiad mwyaf yn y DEL cyfalaf yn 2013-14 (mewn termau ariannol a chanrannol) yn y SPA Rhaglenni Canolog, lle ceir gostyngiad o £1.9 filiwn, neu 11.2%. Mewn termau real, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 13.4%. Mae hyn yn unol â chynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes.

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)***

- Yn cynyddu £3.5 miliwn, neu dros 100%, yn 2013-14 o gymharu â 2012-13.
- Yn cynyddu £4 miliwn, neu dros 100%, yn ystod cyfnod y gyllideb (rhwng 2012-13 a 2014-15).

## Tabl 34: Newidiadau yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu o flwyddyn i flwyddyn

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb atodol 2012-13 | Cyllideb ddrafft 2013-14 | Cyllideb ddrafft ddangosol 2014-15 | Newid rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol rhwng 2012-13 a 2014-15 | | Newid mewn termau real rhwng 2012-13 a 2013-14 | | Newid cyffredinol mewn termau real rhwng 2012-13 a 2014-15 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* | *£000* | *canran* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | | | |
| Costau rhedeg a ddirprwywyd | 205,613 | 195,372 | 195,372 | -10,241 | -5.0 | -10,241 | -5.0 | -15,006 | -7.3 | -19,655 | -9.6 |
| Costau Rhedeg Canolog | 91,429 | 88,616 | 88,635 | -2,813 | -3.1 | -2,794 | -3.1 | -4,974 | -5.4 | -7,065 | -7.7 |
| Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth | 23,016 | 12,508 | 12,608 | -10,508 | -45.7 | -10,408 | -45.2 | -10,813 | -47.0 | -11,016 | -47.9 |
| Rhaglenni Canolog | 14,361 | 26,800 | 29,177 | 12,439 | 86.6 | 14,816 | 103.2 | 11,785 | 82.1 | 13,410 | 93.4 |
| **CYFANSWM REFENIW** | **334,419** | **323,296** | **325,792** | **-11,123** | **-3.3** | **-8,627** | **-2.6** | **-19,008** | **-5.7** | **-24,325** | **-7.3** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | 11,145 | 9,935 | 9,935 | -1,210 | -10.9 | -1,210 | -10.9 | -1,452 | -13.0 | -1,689 | -15.2 |
| Rhaglenni Canolog | 17,319 | 15,378 | 15,378 | -1,941 | -11.2 | -1,941 | -11.2 | -2,316 | -13.4 | -2,682 | -15.5 |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **28,464** | **25,313** | **25,313** | **-3,151** | **-11.1** | **-3,151** | **-11.1** | **-3,768** | **-13.2** | **-4,371** | **-15.4** |
| **AME** | | | | | | | | | | | |
| Costau Rhedeg Canolog | -1,842 | 1,634 | 2,152 | 3,476 | 188.7 | 3,994 | 216.8 | 3,436 | 186.5 | 3,890 | 211.2 |
| **CYFANSWM AME** | **-1,842** | **1,634** | **2,152** | **3,476** | **188.7** | **3,994** | **216.8** | **3,436** | **186.5** | **3,890** | **211.2** |
| DEL Refeniw | 334,419 | 323,296 | 325,792 | -11,123 | -3.3 | -8,627 | -2.6 | -19,008 | -5.7 | -24,325 | -7.3 |
| DEL Cyfalaf | 28,464 | 25,313 | 25,313 | -3,151 | -11.1 | -3,151 | -11.1 | -3,768 | -13.2 | -4,371 | -15.4 |
| **CYFANSWM DEL** | **362,883** | **348,609** | **351,105** | **-14,274** | **-3.9** | **-11,778** | **-3.2** | **-22,777** | **-6.3** | **-28,696** | **-7.9** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | -1,842 | 1,634 | 2,152 | 3,476 | 188.7 | 3,994 | 216.8 | 3,436 | 186.5 | 3,890 | 211.2 |
| **CYFANSWM CSA** | **361,041** | **350,243** | **353,257** | **-10,798** | **-3.0** | **-7,784** | **-2.2** | **-19,341** | **-5.4** | **-24,806** | **-6.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 a **dadchwyddwyr CMC** Trysorlys Ei Mawrhydi (fel ym mis Medi 2012)